Diogelu Plant a Gwella Safonau Addysg i Bawb
Safeguarding Children and Improving Education Standards for All

# Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg

## Sir Gaerfyrddin

## 2014 – 2017

**Mae'r testun sydd wedi ei amlygu wedi ei newid/adolygu o fersiwn 2014 gwreiddiol o'r CSGA**

taith at ddwy IAITH
SIR GÂR

## *Adran 1*

# Gweledigaeth a nôd Sir Gâr
# am Addysg cyfrwng Cymraeg

# Dysgu yn Sir Gâr – ychwanegwyd hwn at y cynllun gwreiddiol er mwyn dangos ein gweledigaeth a'n blaenoriaethau

***Ein gweledigaeth...***

I ddarparu gwasanaeth a fydd yn sicrhau cyfleoedd dysgu o ansawdd uchel i'r holl blant, pobl ifanc ac oedolion, a thrwy hynny'n eu galluogi i gyflawni eu llawn botensial yng nghyd-destun natur ddwyieithog unigryw'r sir.

***Ein polisi ar gyfer hyrwyddo dysgu…***

Hyrwyddo'r dysgu yw ein prif ddiben. Yr ydym yn credu fod dysgwyr effeithiol:

- yn gwybod sut i ddysgu ar eu pennau eu hunain a chydag eraill
- yn medru mynd ati'n gynyddol i reoli eu dysgu
- yn mwynhau dysgu
- yn hyderus ac yn cael eu symbylu i barhau i ddysgu trwy gydol oes

Mae'r Awdurdod Lleol, ei ysgolion a darparwyr addysg eraill yn hyrwyddo diwylliant sy'n annog pobl i ymchwilio i safbwyntiau ynghylch dysgu ac yn annog pobl i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o beth yw dysgu.

Hwylusir y gwaith yma trwy:

- gysylltu â phobl a thrafod sut byddwn ni'n dysgu
- rhannu arferion da o ran annog pob disgybl i feddwl ac i siarad am eu dulliau dysgu
- crisialu a gwella rôl Asesu ar gyfer Dysgu

Ffrwyth y gwaith hwn fydd:

- dysgwyr effeithiol sy'n tueddu mwy at gyflawni
- darparwyr sy'n annog pawb i gyfrannu o ran hyrwyddo'r dysgu
- darparwyr sy'n cytuno ar bolisïau ar gyfer dysgu ac yn eu rhoi ar waith
- darparwyr sy'n cynnal ymchwil weithredol sydd yn canolbwyntio ar ddysgu

***Ein blaenoriaethau…***

- Cyfathrebu ar draws y cwricwlwm: llythrennedd, rhifedd, dwyieithrwydd, TGCh a lles
- Asesu ar gyfer Dysgu - codi disgwyliadau a chysondeb er mwyn cael gwared ar amrywiaeth
- Arweinyddiaeth System a chynyddu cydweithredu

***Ein ffordd o weithio…***

- Adeiladu ymddiriedaeth a chynnal deialog
- Gweithio gyda'n gilydd i gofleidio newid ac i gryfhau systemau, arfer a deilliannau
- Gweithio gyda'n gilydd i sicrhau bod pawb yn cyflawni

**Y Gymraeg yn Sir Gâr – yn ychwanegol o ganlyniad i waith Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Iaith Gymraeg Sir Gâr**

O edrych ar ganlyniadau Cyfrifiad 2011 yn Sir Gaerfyrddin y gwelwyd y pwynt canran yn disgyn fwyaf yng Nghymru– o 50.3% yn 2001 i 43.9% yn 2011, sy'n golygu mai llai na hanner y boblogaeth oedd yn gallu siarad Cymraeg erbyn 2011. Dyma'r tro cyntaf yn hanes y sir i'r ganran ddisgyn dan yr hanner.

Yn dilyn cyhoeddi Canlyniadau Cyfrifiad 2011 cytunodd y Cyngor i sefydlu Gweithgor Tasg a Gorffen i ymchwilio i'r ffactorau sydd wedi arwain at y dirywiad ac i lunio argymhellion er mwyn ymdrin â'r sefyllfa. Yn y cyfnod rhwng mis Ebrill 2013 a Mawrth 2014, cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd yn edrych ar y meysydd canlynol:

- Cynllunio
- Addysg
- Iaith ac Economi
- Gweithleoedd cyfrwng Cymraeg a gweinyddiaeth y Cyngor
- Effaith sefydliadau sy'n gweithio er budd y Gymraeg megis y Mentrau Iaith
- Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yng nghymunedau'r sir
- Trosglwyddiad Iaith yn y teulu
- Marchnata'r Iaith

Cytunodd yr Aelodau i wahodd ystod o sefydliadau ac unigolion i gyflwyno tystiolaeth i'r Gweithgor ac er mwyn adeiladu ar y wybodaeth leol ynghylch sefyllfa'r Gymraeg yn y sir. Cytunodd yr aelodau i wahodd sylwadau gan aelodau o'r cyhoedd gan ofyn iddynt gyflwyno tystiolaeth ynglŷn â'r meysydd blaenoriaeth ac i gynnig eu profiadau personol o ran y Gymraeg.

Penderfynodd y Grŵp i gomisiynu dau ddarn o waith ymchwil penodol. Comisiynwyd Dr Dylan Phillips i baratoi adroddiad ystadegol manwl ar sefyllfa'r Gymraeg yn Sir Gâr er mwyn cael dogfen a fyddai ar gael, nid yn unig at waith y Gweithgor ond fel sail tystiolaeth ar gyfer pob un o bartneriaid y Cyngor wrth gynllunio gwasanaethau a gweithgarwch hyrwyddo'r Gymraeg yn y

sir. Cytunwyd hefyd i gomisiynu Prifysgol y Drindod Dewi Sant i wneud darn o waith ymchwil i edrych ar Gynllunio a'r iaith Gymraeg.

**Addysg**

Mae **Strategaeth Addysg Gymraeg Sir Gaerfyrddin** yn adlewyrchu dyheadau'r Cyngor a dyheadau Llywodraeth Cymru fel y maent wedi eu nodi yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, Y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, Polisi Iaith Sir Gaerfyrddin a'r Strategaeth Gymunedol Integredig.

Mae'r Cynllun yn pwysleisio ymrwymiad i gydweithio i gyflawni'r canlyniadau gorau i holl blant a phobl ifanc Sir Gâr.

Bydd yr Awdurdod yn gweithio ar y cyd â gwasanaethau eraill i:

- Sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog ar gael i bob plentyn, a hynny o fewn pellter teithio rhesymol o gartref y plentyn. Golyga hyn blant o oedran cyn ysgol ymlaen;

- Sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i gael ei haddysgu fel iaith gyntaf ac/neu ail iaith ar yr amserlen yn holl ysgolion y Sir, yn unol ag anghenion statudol y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, *'cael system a hyfforddiant sy'n ymateb mewn ffordd wedi'i chynllunio i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg'* a hynny o gyfnod addysg cyn statudol ymlaen;

- Sicrhau bod pob disgybl mewn ysgolion Cyfrwng Cymraeg yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'r Gymraeg yn rhugl erbyn diwedd CA2;

- Disgwylir bod dilyniant ieithyddol yn digwydd ym mhrofiadau cwricwlaidd y dysgwr wrth iddyn nhw drosglwyddo o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3;

- Disgwylir i bob disgybl sydd wedi dilyn y rhaglen Gymraeg iaith gyntaf yn y cyfnod cynradd i barhau gyda'r rhaglen hon wrth drosglwyddo i'r uwchradd;

- Sicrhau dilyniant datblygedig o ddarpariaeth cyn ysgol i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg/dwyieithog i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg/dwyieithog. Hybir dilyniant ieithyddol o CA4 ymlaen hyd at yrfa dysgu gydol oes disgyblion a myfyrwyr y Sir;

- Gweithio mewn partneriaeth â'r holl ddarparwyr cyn ysgol, y Cyfnod Sylfaen, cynradd, uwchradd a llwybrau dysgu 14-19 er mwyn gwella safon y Gymraeg fel iaith gyntaf ac ail iaith. Bydd holl ysgolion y Sir yn derbyn cyngor a chefnogaeth gan yr Arweinwyr System sy'n rhan o'r gwasanaethau gwella ysgolion. Cynigir cefnogaeth bellach gan Arweinwyr System Cysylltiol Llythrennedd a'r Gwasanaeth Athrawon Gwella'r Gymraeg a Dwyieithrwydd wrth iddynt ymweld â'r ysgolion, gan fonitro safonau ieithyddol disgyblion ar ran yr Awdurdod Lleol;

- Sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd ag anghenion addysgol ychwanegol yn derbyn cyfle cyfartal ieithyddol o safbwynt addysg cyfrwng Cymraeg wrth ddilyn gofynion Cod Ymarfer diwygiedig ADY Cymru;

- Hyrwyddo a datblygu rhaglenni dysgu a hyfforddiant a fydd yn fodd i athrawon feithrin y gallu a'r hyder i gyflwyno'r Gymraeg yn iaith gyntaf ac/neu ail iaith;

- Hyrwyddo hyfforddiant codi ymwybyddiaeth iaith i lywodraethwyr, rhieni a staff addysgu;

- Rhoi sylw i faterion gallu ieithyddol o ran gweithwyr cymorth dysgu sy'n gallu cynorthwyo gyda chyflwyno'r ddarpariaeth iaith Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen, mewn lleoliadau Cymraeg eu cyfrwng a Chymraeg Ail iaith;

- Sicrhau bod disgyblion newydd i'r Sir sy'n fewnfudwyr di-gymraeg yn medru gwneud defnydd llawn o'r Gwasanaeth Athrawon Gwella'r Gymraeg a Dwyieithrwydd er mwyn iddynt, wrth dderbyn cwrs dwys yn y Gymraeg, allu integreiddio'n naturiol i'w hysgol leol a'u cymuned.

- Hyrwyddo datblygiad sgiliau dwyieithog disgyblion ym mhob sefyllfa ysgol fel y defnyddir rhagor o'r Gymraeg a hynny'n gymesur â dynodiad ysgolion unigol o ran cyfrwng dysgu.

## *Adran 2*

# Y Cynllun Gweithredu

## **Deilliant 1:** Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

**Argymhellion Gweithgor y Cyfrifiad- Y Gymraeg yn Sir Gâr- yn ychwanegol o ganlyniad i waith Grŵp Iaith Gymraeg Sir Gâr**

***NOD: Cynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Gâr a sicrhau dilyniant ieithyddol o'r sector meithrin ar hyd y cyfnodau allweddol i'r sector uwchradd fel y daw pob disgybl yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg.***

1. Bod y Cyngor Sir yn cydweithio'n agos gyda'r Mudiad Meithrin a darparwyr preifat i sicrhau bod addysg cyn ysgol cyfrwng Cymraeg ar gael yn hwylus ym mhob rhan o Sir Gâr.

2. Bod y Cyngor Sir yn paratoi cynllun gwaith ac amserlen bendant, mewn cydweithrediad â chyrff llywodraethu ysgolion, er mwyn symud pob ysgol gynradd ar hyd continwwm iaith. Bydd angen datblygu strategaethau ar gyfer yr amrywiol gategorïau ac ardaloedd daearyddol;

3. Bod y Cyngor Sir yn cydweithio'n agos gyda staff a chyrff llywodraethol ysgolion trawsnewidiol Sir Gâr (sef ysgolion cyfrwng Cymraeg ond â defnydd sylweddol o'r Saesneg) er mwyn eu troi yn ysgolion Cymraeg;

4. Bod y Cyngor Sir yn cydweithio'n agos gyda staff a chyrff llywodraethol ysgolion dwy ffrwd Sir Gâr er mwyn eu troi yn ysgolion Cymraeg;

5. Bod y Cyngor Sir yn cytuno ar yr egwyddor y dylai pob ysgol gynradd Saesneg dros gyfnod o amser gyflwyno'r cwricwlwm yn y Cyfnod Sylfaen yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg fel man cychwyn gan ystyried opsiynau gwahanol ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 (CA2);

6. Bod y Cyngor Sir yn dechrau'r broses o adnabod ysgolion cyfrwng Saesneg fyddai'n barod i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen drwy gyfrwng y Gymraeg yn weddol o fuan gyda'r nod yn CA2 i gynnig dewis rhwng ffrwd Gymraeg neu ffrwd ddwyieithog (25-50% cyfrwng Cymraeg);

7. Bod y Cyngor Sir yn rhoi ystyriaeth fanwl i fodel presennol canolfannau iaith/hwyrddyfodiaid Sir Gâr yn y sector cynradd ac i ddatblygu'r ddarpariaeth ar sail model Cynghorau Gwynedd a Cheredigion;

8. Bod y Cyngor Sir yn mabwysiadu Siartr Iaith Gymraeg Cyngor Gwynedd (sy'n annog plant i siarad Cymraeg yn yr ysgol ac yn gymunedol) a'i addasu at ofynion Sir Gaerfyrddin;

10. Bod y Cyngor Sir yn cynnwys disgwyliadau o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg fel rhan o gytundeb gydag ysgolion, ochr yn ochr â disgwyliadau o ran disgyblaeth, cyrhaeddiad a phresenoldeb;

17. Bod y Cyngor Sir yn cynnal ymgyrch farchnata barhaus i hyrwyddo addysg Gymraeg gan esbonio manteision bod yn ddwyieithog i rieni a disgyblion;

18. Bod y Cyngor Sir yn darparu hyfforddiant i lywodraethwyr cynradd ac uwchradd ar fanteision addysg Gymraeg a'r rhesymau addysgiadol, economaidd a chymunedol pam y dylid ehangu'r ddarpariaeth ar draws y sir.

19. Bod y Cyngor Sir yn cynnal asesiad o'r galw am addysg Gymraeg mewn ardaloedd lle ystyrir bod angen;

**NOD: I sicrhau cynnydd yn nifer y teuluoedd sy'n trosglwyddo'r iaith Gymraeg o fewn aelwydydd cyfrwng Cymraeg ac aelwydydd iaith gymysg ac i gynnig cefnogaeth i aelwydydd di-gymraeg i gyflwyno'r Gymraeg.**

67. Bod y Cyngor Sir yn cyd-weithio gyda chyrff a phrosiectau megis Twf (mudiad sy'n hyrwyddo trosglwyddo iaith yn y teulu) a'r Mudiad Meithrin er mwyn hyrwyddo cyfleoedd dwyieithrwydd yn y sector cyn-ysgol trwy dargedu cymunedau penodol o fewn Sir Gâr yn ôl dadansoddiad ystadegol o'r defnydd o'r Gymraeg.

69. Bod Llywodraeth Cymru gyda chydweithrediad y Cyngor Sir yn sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn ganolog i gynlluniau tebyg i Dechrau'n Deg.

| A. Amcan | B. Perfformiad cyfredol | C. Targedau | Ch. Cynnydd |
|---|---|---|---|
| **Cynyddu nifer y dysgwyr saith oed sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg**. | Yn 2015 roedd **56.8%** o blant yn derbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg**.** Bydd y nifer o ddysgwyr 7 oed sydd yn cael eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn cynyddu wrth i ysgolion Dwy Ffrwd gynllunio ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen ac wrth sicrhau dilyniant i Gyfnod Allweddol 2. | **2015** \| **56%**<br>**2017** \| **58%**<br><br>Parhau i gynyddu'r canran o ddysgwyr 7 oed sy'n derbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg wrth i Athrawon Gwella'r Gymraeg a Dwyieithrwydd ac Arweinwyr System barhau i dargedu ysgolion Dwy Ffrwd.<br><br>Cefnogi 3 ysgol i drosglwyddo erbyn 2017.<br><br>Targedu 8 ysgol i symud ar hyd y continwwm iaith erbyn 2016.<br>Ymchwilio i ac ymgynghori ynghylch nifer o ysgolion Cyfrwng Saesneg sydd a'r ddarpariaeth i | Wedi cyrraedd targed 2015 o ran nifer y dysgwyr saith oed sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Argoeli'n dda o ran cynyddu ymhellach wrth i 6 ysgol dwy ffrwd symud ar hyd y continwwm ieithyddol . Wedi trafodaethau gyda LIC cychwyn ar ymgynghori'n ffurfiol 2016-17 er mwyn newid categori ysgol. Trafod y posibiliadau o greu ysgolion sydd yn darparu yn y Gymraeg yn y CS ac yna cynnig dewis dwy ffrwd ym mlwyddyn 3 ymlaen<br><br>Cyflwyniad wedi ei greu ar |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | weithredu'r Cyfnod Sylfaen trwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Targedu'r ysgolion Cyfrwng Saesneg hynny i ddarparu'r Cyfnod Sylfaen trwy gyfrwng y Gymraeg- 2017. | gyfer yr ysgolion sydd yn addas ar gyfer rhannu gyda llywodraethwyr a rhieni. Wedi creu cynllun a chychwyn hyfforddiant ar fanteision dwyieithrwydd (yn seiliedig ar ymchwil academaidd).<br>Creu Ysgol newydd dwy ffrwd yn ardal Llanelli- wedi ymgynghori'n ffurfiol - anelu at agor ysgol newydd ym Medi 2016. Mewn trafodaethau gyda LlC ar gyfer sicrhau cyllid ar gyfer ysgol newydd. |
| **Mabwysiadu dulliau cadarn o fesur y galw am ddarpariaeth gofal plant ac addysg statudol cyfrwng Cymraeg. Gweithredu'n brydlon ar gasgliadau arolygon rhieni.** | Mae polisi derbyn plant i ysgolion Sir Gaerfyrddin yn dibynnu ar ddarpariaeth leol :<br><br>• ysgolion cynradd gyda dosbarthiadau meithrin- derbyn yn y tymor ar ôl trydydd pen-blwydd y plentyn, yn bennaf yn rhan amser. Derbynnir yn amser llawn cyn pedwerydd pen-blwydd y plentyn;<br><br>• ysgolion cynradd heb ddosbarthiadau meithrin - derbyn amser llawn ar ddechrau'r tymor cyn pedwerydd pen-blwydd y plentyn<br><br>Ceisir sicrhau dewis i rieni a chynnig cyfle cyfartal trwy ariannu lleoedd i blant o fewn darpariaethau'r mudiadau gwirfoddol a phreifat, megis y Mudiad Meithrin, Cylch Ti a Fi neu'r WPPA, yn unol â'r canllawiau a osodir ar eu cyfer gan Bartneriaeth Plant Sir Gaerfyrddin.<br><br>Caiff un ysgol feithrin a 31 o ddosbarthiadau meithrin eu cynnal gan yr Awdurdod Addysg. | Gweledigaeth yr ALl a'r LlC, fel y'i diffinnir yn *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg NS1*, yw anelu at yr un targed, sef "*gwella'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cyfnodau addysg cyn statudol a statudol*'<br><br>Nod i gynyddu darpariaeth cyn ysgol cyfrwng Cymraeg yn nalgylchoedd ysgolion cyfrwng Saesneg mewn tair ysgol yn flynyddol.<br><br>Targedu ysgolion gyda dosbarthiadau meithrin i sicrhau o leiaf 90% o blant i barhau gydag addysg Cyfrwng Cymraeg<br><br>Gweithio gyda'r Mudiad | Amserlen arfaethedig/ ysgolion ffocws wedi eu nodi ond anawsterau gyda'r angen am broses statudol i sicrhau unrhyw newid arwyddocaol.<br><br>Cyd weithio gyda LlC i hwyluso'r daith<br><br>Parhau i dargedu ysgolion gyda dosbarthiadau meithrin. ***Gwelir atodiad*** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Bu'r Mudiad Meithrin yn aelod o Bartneriaeth Plant Sir Gaerfyrddin o'r cychwyn cyntaf. Cynhwysir hwy ym mhob trafodaeth a phenderfyniad wrth lunio a chytuno ar Gynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yr Awdurdod<br>Gan fod rhwydwaith eang iawn o ysgolion CC, ysgolion DFf yn y Sir mae cyfle i bob disgybl barhau gydag addysg gynnar trwy gyfrwng y Gymraeg, a hynny o fewn pellter rhesymol i gartref y plentyn.<br><br>Mae Sir Gâr wedi datblygu system drefnus o addysgu a hyfforddiant sy'n ymateb i'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg. Mae safle unigryw'r sir, sy'n cael ei chyfri gennym yn ficrocosm o Gymru gyfan, yn golygu ein bod yn cynyddu'r nifer o bobl o bob oed a chefndir sydd yn rhugl yn y Gymraeg ac yn medru defnyddio'r iaith gyda'r teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle.<br><br>Mae darparu addysg gynradd sydd â'r nod o sicrhau disgyblion rhugl dwyieithog yn ganolog i feddylfryd yr Awdurdod.<br><br>Caiff pob disgybl y cyfle i dderbyn addysg o'r fath, a hynny o fewn pellter rhesymol i'w gartref. Addysgir mwyafrif helaeth disgyblion y Sir yn yr ysgol gymunedol leol. Mae rhai disgyblion, fodd bynnag, yn derbyn eu haddysg y tu allan i'w cymuned yn unol â dymuniad rhieni. | Meithrin/darparwyr addysg cyn-ysgol i dracio dilyniant o Gylchoedd Meithrin i addysg cyfrwng Cymraeg yn ardal Dinefwr a Chaerfyrddin.<br><br>Dau baragraff wedi eu dileu | Cydlynydd Mudiad Meithrin yn aelod o'r Fforwm Addysg Gymraeg.<br><br>Asesiad o angen wedi ei gwblhau mewn partneriaeth gyda swyddogion Gwasanaethau Plant.<br><br>Cyd weithio gyda thîm y Cyfnod Sylfaen/ Blynyddoedd Cynnar er mwyn sicrhau gwasanaeth ymhob ardal. |
| **Sicrhau bod cynigion Ysgolion yr 21ain Ganrif yn cynnig ystyriaeth lawn o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.** | Mae dull yr awdurdod lleol o ehangu'r ddarpariaeth yn un strategol ac o dan arweiniad y Cyngor Sir. Ar hyn o bryd, rydym yn canolbwyntio ar y modd y byddwn yn medru sicrhau lleoedd digonol ac addas i blant y rhieni a gofalwyr hynny sydd yn awyddus i gael addysg Cyfrwng Cymraeg i'w plant.<br><br>Mae'r Rhaglen Amlinellol Strategol yn ceisio anelu at well canlyniadau addysgol a gwell flas ar fyw i blant a phobl ifanc beth bynnag fo'u cefndir economaidd cymdeithasol. Anelwn hefyd at leihau'r gwahaniaethau addysgiadol o fewn yr ystafell dosbarth, rhwng dosbarthiadau a rhwng ysgolion ac ar draws yr | Asesu cynaladwyedd addysg mewn ysgolion bach.<br><br>Cwblhau'r cynnig i greu ysgol dwy ffrwd yn ardal Llanelli<br><br>Targedi'r 10 ysgol Dwy Ffrwd gan yr AGGaD drwy gynllun datblygu iaith benodol.<br><br>Cefnogi 2 ysgol DFf i fod yn | Ymateb yn strategol i ddiffyg cynaladwyedd ysgolion bach-dwy ysgol wedi cau yn 2015.<br><br>Wedi trafodaethau gyda LlC i sicrhau dealltwriaeth o'r broses, dilyn rhaglen strategol y sir ar symud ysgolion dwy ffrwd. Dwy ysgol yn drawsnewidiol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | awdurdod.<br>Mae'r Awdurdod yn dal yn gadarn at y cysyniad o'r continwwm iaith, gan wynebu'r her o sicrhau fod holl ysgolion y Sir yn symud yn gadarnhaol ar hyd y llinell ddatblygol. Golyga hyn fod pob ysgol i werthuso'n rheolaidd le'r Gymraeg fel pwnc, y defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng a safle'r Gymraeg fel cyd-destun i weithgareddau a threfniadaeth yr ysgolion.<br><br>O gofio nod dwyieithog polisi iaith yr Awdurdod Lleol mae rhaid gwneud defnydd estynedig a helaeth o'r Gymraeg ar hyd Cyfnod Allweddol 2 mewn ysgolion Cyfrwng Cymraeg a Dwy Ffrwd fel bod disgyblion yn cyrraedd y nod o fod yn rhugl ddwyieithog erbyn trosglwyddo i'r sector uwchradd. Golyga hyn fod yn rhaid i o leiaf 70% o'r amser dysgu ac addysgu fod trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob blwyddyn yng Nghyfnod Allweddol 2 yn yr ysgolion yma:<br><br>• Mae rhai ysgolion eisoes yn darparu'n uwch na 70% o'r amser dysgu ac addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg;<br><br>• codi safonau cyflawniad disgyblion yn y Gymraeg fel ail iaith ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 mewn ysgolion Cyfrwng Saesneg. Mewnbwn dwys gan Athrawon Gwella'r Gymraeg a Dwyieithrwydd i hyfforddi oedolion a disgyblion ar lawr y dosbarth er mwyn codi safonau ail iaith.<br><br>Bydd cynlluniau'r awdurdod lleol ar gyfer ysgolion y 21ain ganrif yn cyflwyno'r canlyniadau arfaethedig y bwriedir gan Lywodraeth Cymru yn ad-drefnu Addysg a Darpariaeth Hyfforddiant yng Nghymru yn ogystal â dogfennau strategaeth addysg Cyfrwng Cymraeg. | Drawsnewidiol erbyn 2016<br><br>Ymestyn y canran addysgu drwy'r Gymraeg 70% ac uwch gyda chefnogaeth AGGaD drwy addysgu Mathemateg a Gwyddoniaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>100% o ysgolion Cyfrwng Cymraeg yn addysgu Mathemateg cyfrwng Cymraeg erbyn 2017.<br><br>Ad-drefnu pump o ysgolion uwchradd 11-19 yn ardal Dinefwr i ffurfio tair canolfan dysgu a fydd yn gyd weithio 'n ffurfiol a Choleg Sir Gar a gyda darparwyr hyfforddiant i gyflawni addysg 14-19.<br><br>Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg yn cael ei fonitro a'i ddatblygu trwy gyfrwng gweithredu CSGA.<br><br>Un paragraff wedi ei ddileu | 100% o ysgolion Cyfrwng Cymraeg yn addysgu Mathemateg cyfrwng Cymraeg erbyn 2015. O flaen y targed.<br><br>Mae'r uned MEP yn ymwybodol o leoedd mewn ysgolion a'r rhaglen i gynllunio ar gyfer twf<br><br>Cynllun buddsoddi i ail drefnu ysgolion uwchradd wedi cyflawni. Ysgol Dyffryn Aman wedi datblygu i fod yn ysgol 2B. Ysgolion Pantycelyn a Thregib wedi uno i greu Ysgol Bro Dinefwr- newid o 2C i 2B o ran darpariaeth. Ysgolion y Gwendraeth a Maes yr Yrfa wedi uno i greu ysgol 2A- Ysgol Maes y Gwendraeth<br>Estyniad newydd ar gyfer Maes y Gwendraeth ac adeilad newydd ar gyfer Ysgol Bro Dinefwr- agor 2016 |
| **Gwella gweithio cydweithredol drwy gonsortia.** | Bwriedir cefnogi elfennau o'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy drefn bartneriaeth a gweithio drwy gonsortiwm rhanbarthol ERW wrth:<br>• gydweithio ar draws y rhanbarth ar y strategaeth | Gweinyddir Grant Cymraeg mewn Addysg yn rhanbarthol gan ERW. | Grant y Gymraeg wedi gorffen.<br><br>Pwyllgor y Gymraeg mewn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Llythrennedd Gymraeg;<br>• Monitro a gwerthuso ysgolion cynradd ac uwchradd ar y cyd gan ddefnyddio arbenigedd Arweinyddion System rhanbarthol;<br>• Rhannu data ac arfer da ar draws y rhanbarth;<br>• Mynychu a chefnogi cyfarfodydd a phrosesau Fforwm ar draws y rhanbarth;<br>• Hyrwyddo datblygiadau cwricwlaidd Partneriaeth Beca (ysgolion Emlyn, Aberteifi a Choleg Ceredigion a phartneriaid ehangach rhwng Ceredigion a Phenfro);<br>• Cyllido darpariaeth cyfrwng Cymraeg gyda chyllid rhwydwaith a Fforwm 14-19. | | Addysg ERW yn cynnal cyfarfodydd cyson pob tymor sydd yn dilyn cynllun busnes ERW . Y pwyllgor yn rhaeadru i'r bwrdd gweithredol .<br><br>Gweithgor Athrawon Bro ERW wedi creu helaeth o adnoddau ar gyfer gwefan ERW.<br><br>Gweithgor Siarter Ail Iaith wedi creu adnodd Siarter Cymraeg Campus ERW sydd yn cael ei beilota Ionawr 2016 gan 20 o ysgolion ar draws ERW. Lansiad ffurfiol i ddigwydd ym mis Gorffennaf 2016.<br><br>Gweithgor Uwchradd ar draws y consortiwm wedi creu adnoddau ar gyfer manyleb newydd TGAU Cymraeg Llen ac Iaith. Hyfforddiant ar gyfer defnydd da o'r adnoddau wedi eu cynnal yn yr Hybiau ac fel rhan o'r cyfarfodydd Rhwydweithio.<br><br>Datblygu Siarter Iaith Uwchradd a Siarter Iaith Ail Iaith. Deunyddiau hyrwyddo manteision addysg ddwyieithog. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynyddu'r gallu i fanteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy gynlluniau trochi a chanolfannau i hwyrddyfodiaid.** | Mae gan yr Awdurdod chwe Chanolfan Iaith ac mae eu diffiniad a'u rôl yn cyfateb i'r hyn grybwyllir yn *y Strategaeth*. Gwasanaethant ddisgyblion sydd wedi symud i fyw i gymunedau dwyieithog Sir Gaerfyrddin. Lleolir hwy yn Llanymddyfri, Llandeilo, Dyffryn Aman, y Gwendraeth, Caerfyrddin a Hendy-gwyn. Lleolir y Canolfannau, gydag un eithriad, mewn ysgolion uwchradd. Trefnwyd rhaglen er sicrhau bod yr hwyrddyfodiaid, i fyny at ddeuddeg ohonynt ar unrhyw un adeg, yn mynychu'r Canolfannau am ddeuddydd yr wythnos, a hynny am o leiaf un tymor. Mae cydweithio agos gyda'r ysgolion wrth i athrawon y Canolfannau ymweld â hwy mewn patrwm o ôl ofalaeth, gyda'r athrawon dosbarth hwythau yn eu tro yn cael cyfle i ymweld â'r Canolfannau. Mae cynlluniau'r canolfannau fel a ganlyn:<br><br>• Cynllun Cychwynnol Hwyrddyfodiaid (yn y canolfannau);<br>• Croeso i Gymru (llyfryn a CD yn yr ysgolion);<br>• Cynllun Canol- Hwyrddyfodiaid ;<br>• Cymru am Byth;<br>• Cynllun Croesi'r Bont;<br>• Cynllun Caru Cymru;<br>• 'Blas ar Gymru'.<br><br>Pwynt bwled wedi ei ddileu | Ar waith mae Cynllun "O Ysgol i Ysgol"- targedu disgyblion sy'n symud rhwng ysgolion o fewn i'r Awdurdod yw'r nod yma.<br><br>Mae gan yr Athrawon Gwella'r Gymraeg a Dwyieithrwydd rôl bwysig wrth iddynt gadarnhau gwaith y Canolfannau yn yr ysgolion drwy gyd-weithio gyda'r athrawon dosbarth a'r disgyblion pob hanner tymor.<br><br>Cadw hyblygrwydd o fewn y gwasanaeth i gyd ymffurfio gyda'r newidiadau yn y Strategaeth.<br><br>Parhau gyda'r prosiectau gorsafoedd Iaith yn ôl y galw.<br><br>**Medi 2014-** Sefydlu Canolfan Bro Dinefwr fel canolfan canolog i hwyrddyfodiaid y sir.<br><br>Sefydlu gorsafoedd Iaith yn ôl y galw yn Rhydaman Gwendraeth a Chaerfyrddin a sgwad o dri AGGaD yn barod i ddiwallu ar gynllun cychwynnol hwyrddyfodiaid. | Swyddogion a rheolwyr wedi ystyried modelau siroedd eraill gan addasu trefn Sir Gaerfyrddin i fod yn wasanaeth mwy hyblyg/parod i ymateb i heriau lleol.<br><br>Penderfynwyd parhau gyda'r Canolfannau Iaith yn yr ysgolion oherwydd natur ddaearyddol y Sir a'r gost o gludo dysgwyr. Os mai penderfyniad Aelodau yw symud i drefn Ceredigion/ Gwynedd bydd angen buddsoddiad sylweddol.<br><br>***Gorsafoedd iaith*** : Gwaith yn seiliedig ar agweddau o hanes Cymru ac yn datblygu sgiliau ysgrifennu ymestynnol disgyblion Bl5. Wythnos o gwrs; disgyblion Bl5 o sawl Ysgol gyda'i gilydd; 3 gorsaf mewn teulu o ysgolion; 2 AGGaD yn cyd-gyflwyno Cynllun ***Pontio Cynradd/Uwchradd*** a dreialwyd yn ysgolion cynradd Bro Dinefwr Haf 2015.<br>Cefnogaeth ddilynol gan AGGaD yn yr ysgol.<br><br>Cwrs mewn Canolfan Iaith- 2/3 diwrnod yr wythnos, dros 10 wythnos, 2 AGGaD yn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | gyfrifol am yr addysgu a'r gofal. Ôl-ofal a chefnogaeth bellach gan AGGaD nôl yn yr ysgol Anelir at flwyddyn o gefnogaeth i gyd.<br><br>Cwrs Dechrau Da sy'n cynnig cefnogaeth i rieni di-gymraeg plant sy'n dechrau yn y Cyfnod Sylfaen<br><br>Cwrs Blas ar Gymru ar gyfer rhieni sy newydd ymgartrefu yn Sir Gâr |
| **Sefydlu Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg a sefydlu cyswllt â Chynllun Plant a Phobl Ifanc. Sicrhau ystyriaethau ar gyfer adnoddau ac ariannu darpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn blynyddoedd cynnar.** | Mae'r Awdurdod yn dal yn gadarn at y cysyniad o'r continwwm iaith, gan wynebu'r her o sicrhau fod holl ysgolion y Sir yn symud yn gadarnhaol ar hyd y llinell ddatblygol. Golyga hyn fod pob ysgol i werthuso'n rheolaidd le'r Gymraeg fel pwnc, y defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng a safle'r Gymraeg fel cyd-destun i weithgareddau a threfniadaeth yr ysgolion. Gosodir targedau a thargedir ysgolion wrth ddefnyddio data ac yna monitro trwy'r Fframwaith Rhanbarthol Cefnogaeth, Her ac Ymyrraeth gan Arweinydd System.<br><br>Mae'r cysylltiadau â'r Bartneriaeth Plant yn un ymarferol a gweithredol ac mae yna gyfarfodydd cyson. Bwriedir sicrhau bod cynlluniau a dogfennau addysg strategol yr awdurdod yn cynnwys cyfeiriad at Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg trwy gydweithio a chyfathrebu ar draws yr awdurdod. Mae'r Arweinydd System Cymraeg a Dwyieithrwydd yn aelod o banel Ymgynghorol yr Aelodau ar yr iaith Gymraeg ac yn codi ymwybyddiaeth o gynnwys y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a datblygiadau addysg Gymraeg ar draws yr awdurdod yn gyson.<br><br>Bydd ymgynghoriadau gyda phrif randdeiliaid yn digwydd yn | Parhau i fonitro, herio a chefnogi ysgolion i symud ar hyd y continwwm ieithyddol.<br><br>Targedi'r tair ysgol Drawsnewidiol i symud i fod yn gyfrwng Cymraeg erbyn 2017<br><br>Sefydlu Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg erbyn Hydref 2014.<br><br>Cynnal cynadleddau Addysg Gymraeg a hyfforddiant i | Sefydlwyd Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg – aelodau:<br><br>Robert Sully- Cyfarwyddwr<br>Gareth Morgans- Prif Swyddog Addysg<br>Aeron Rees- Pennaeth Rhaglennu Dysgu<br>Cyng. Cefin Campbell (Cad)<br>Cyng. Ryan Bartlett<br>Cyng. Thomas Theophilus<br>Cyng. D W Hugh Richards<br>Cyng. W Gwyn Hopkins<br>Catrin Griffiths- Ymgyng. Her gyda'r cyfrifoldeb am y Gymraeg<br>Julie Owen- AGGaD<br>Eryl Roberts- Dyffryn Aman<br>Ann Jones- Ysgol QEH<br>Lee James- Ysgol Llandybie<br>Heather Davies Rowlinson- Mudiad Meithrin |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gyson yn ystod llunio'r cynllun hwn:<br>• Cynhelir cyfarfodydd swyddogol yn gyson;<br>• Cynhelir Pwyllgorau Craffu'n gyson;<br>• Defnyddir gwefan y sir i wahodd rhieni a'r cyhoedd i gyflwyno sylwadau. | athrawon CC ac ail Iaith yn flynyddol ar sgiliau a metholodegau dysgu iaith ar lawr dosbarth. | Rhanddeiliaid eraill i fod yn rhan o'r fforwm ar wahoddiad |
| **Darparu gwybodaeth i rieni/ofalwyr.** | Codi'r ymwybyddiaeth o ddarpariaeth Gymraeg a darparu gwybodaeth i rieni trwy:<br><br>• Codi ymwybyddiaeth manteision Dwyieithrwydd drwy weithio ar y cyd gyda'r Cyngor Sir i greu llyfryn ar fanteision dwyieithrwydd;<br><br>• Cyhoeddir yn flynyddol lyfryn dwyieithog, "Ysgolion Sir Gaerfyrddin: Gwybodaeth i Rieni". Dosberthir copïau i ysgolion, swyddfeydd y Cyngor Sir a Llyfrgelloedd ac fe roir y ddogfen ar wefan y sir. Mae'r llyfryn yn cynnwys polisi iaith yr Awdurdod, y ffordd o wneud cais i gofrestru mewn ysgol a rhestr o holl ysgolion y Sir, gan gynnwys categori iaith pob ysgol;<br><br>• Mae pob ysgol yn darparu prosbectws sy'n cofnodi'n glir ddehongliad manwl yr ysgol o bolisi iaith y Sir, gan gynnwys lle'r Gymraeg fel pwnc a'r defnydd a wneir ohoni, os yw'n berthnasol, fel cyfrwng dysgu ac addysgu yn yr ysgol;<br><br>• Mae trefniadau pendant yn rhoi cyfle i ddisgyblion cynradd ymweld â'r ysgolion uwchradd;<br><br>• Penaethiaid yr ysgolion cynradd ac uwchradd yw'r ffynhonnell orau ar gyfer cyflwyno gwybodaeth fanwl am yr hyn gynigir o fewn ysgol unigol.<br><br>Mae taflenni gwybodaeth a ddosberthir gan Lywodraeth Cymru, TWF a'r Mudiad Meithrin yn egluro'n gryno fanteision dwyieithrwydd ac addysg ddwyieithog, gan nodi sefydliadau neu asiantaethau all roi arweiniad, esboniad a chefnogaeth bellach. | Cwblhau'r prosiect o godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o fanteision addysg ddwyieithog- Hydref 2014<br><br>Creu pamffled a thudalen ar wefan y sir i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o fanteision addysg ddwyieithog. | Yn sgil Siarter Iaith crëwyd posteri a phamffledi gan gynnwys dyfyniadau wrth Alex Jones a Nigel Owens. Darperir DVD gan gynnwys Pŵerbwynt o fanteision addysg ddwyieithog, cyfweliadau gyda rhieni di Gymraeg a sylwadau gan ddisgyblion uwchradd.<br><br>Annog ysgolion i drosglwyddo'r wybodaeth i'w gwefannau.<br><br>Bydd yr hyfforddiant i lywodraethwyr cynradd ac uwchradd ar fanteision addysg ddwyieithog yn rhan o raglen hyfforddi 2015/16 i'w gyflwyno yn nhymor y Gwanwyn 2016. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Ym mis Rhagfyr, ar gyfer dewis erbyn y Medi dilynol, anfonir pecyn trosglwyddo i bob disgybl Blwyddyn 6, gan gyflwyno iddynt enw'r ysgol sydd o fewn dalgylch y cartref, yn ogystal â'r ysgol ddwyieithog agosaf, a chopïau o brosbectysau'r ysgolion perthnasol. Cyflwynir ffurflen drosglwyddo ddwyieithog a gofynnir iddynt ei llenwi a'i dychwelyd i'r swyddfa ganolog erbyn diwedd Ionawr.<br><br>Eglurir y gall rhieni fynegi dymuniad i'w plant dderbyn eu haddysg mewn ysgol maent yn ffafrio ond os yw rhieni'n dymuno i'w plant fynychu ysgol y tu allan i'r dalgylch caniateir y cais os oes lle ac adnoddau digonol yn yr ysgol ddewisedig. Bydd polisi cludiant y sir bob amser yn berthnasol. Mae gwybodaeth ysgolion hefyd ar gael yn electronig ar safwe'r Cyngor Sir.<br><br>Mae'r paragraff hwn wedi ei olygu | | |

## <u>Deilliant 2</u>: Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd - yn ychwanegol o ganlyniad i waith Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Iaith Gymraeg Sir Gâr

### <u>Argymhellion Gweithgor y Cyfrifiad- Y Gymraeg yn Sir Gâr</u>

***NOD: Cynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Gâr a sicrhau dilyniant ieithyddol o'r sector meithrin ar hyd y cyfnodau allweddol i'r sector uwchradd fel y daw pob disgybl yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg.***

9. Bod y Cyngor Sir yn ailedrych a sicrhau bod ysgolion cynradd Cymraeg yn rhan o deulu ysgol uwchradd sy'n gallu darparu continwwm ieithyddol addas o'r sector cynradd ymlaen i CA3 a CA4 a chynnal gweithgareddau pontio sy'n adlewyrchu natur ieithyddol yr ysgolion cynradd sy'n eu bwydo;

12. Bod y Cyngor Sir yn disgwyl i ysgolion uwchradd adeiladu ar y sylfaen ieithyddol a osodwyd gan yr ysgolion cynradd Cymraeg drwy sicrhau bod pob disgybl yn parhau i astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf ac fel cyfrwng dysgu hyd at CA4;

13. Bod y Cyngor Sir yn mabwysiadu protocol dilyniant clir gyda phob ysgol gynradd ac uwchradd Gymraeg (neu ddwyieithog), gyda hyfforddiant priodol lle bo angen, er mwyn cynyddu'r nifer o ddisgyblion sy'n parhau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob cyfnod allweddol:

14. Bod y Cyngor Sir yn ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu cynllun ail-gyfle yn y cyfnod pontio rhwng y sector cynradd a'r uwchradd gan fabwysiadu'r Cynllun Trochi sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn ledled Cymru;

15. Bod y Cyngor Sir yn cytuno ar amserlen a chynllun i gefnogi ysgolion 2A, 2B a 3 i symud ar hyd y continwwm iaith dros gyfnod o amser a rhoi arweiniad i sicrhau bod pob ysgol uwchradd arall yn symud ar hyd y continwwm iaith a chreu ethos sy'n annog parch tuag at y Gymraeg;

16. Bod y Cyngor Sir yn cynllunio ar gyfer twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn y sector uwchradd.

17. Bod y Cyngor Sir yn cynnal ymgyrch farchnata barhaus i hyrwyddo addysg Gymraeg gan esbonio manteision bod yn ddwyieithog i rieni a disgyblion;

18. Bod y Cyngor Sir yn darparu hyfforddiant i lywodraethwyr cynradd ac uwchradd ar fanteision addysg Gymraeg a'r rhesymau addysgiadol, economaidd a chymunedol pam y dylid ehangu'r ddarpariaeth ar draws y sir.

19. Bod y Cyngor Sir yn cynnal asesiad o'r galw am addysg Gymraeg mewn ardaloedd lle ystyrir bod angen;

**NOD: I gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y gweithle**

33. Bod y Cyngor Sir yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o swyddi'r Cyngor fesul adran er mwyn adnabod swyddi lle ddylai'r Gymraeg fod yn hanfodol. Dylid canolbwyntio yn y lle cyntaf ar swyddi sy'n darparu gwasanaeth uniongyrchol i'r cyhoedd.

39. Bod y Cyngor Sir yn sicrhau cefnogaeth a dilyniant priodol i staff o fewn y gweithle, er mwyn eu galluogi i symud ar hyd y continwwm gallu ieithyddol yn ôl y gofyn. Bydd hyn yn cynnwys y rheini sy'n dysgu am y tro cyntaf hyd at y rheini sydd eisiau gloywi eu hiaith. Dylai rheolwyr annog a chefnogi staff i ddatblygu eu sgiliau gan fonitro a chofnodi cynnydd a defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle fel rhan o'r broses arfarnu staff.

<table>
<tr><th>A. Amcan</th><th>B. Perfformiad cyfredol</th><th>C. Targedau</th><th>Ch. Cynnydd</th></tr>
<tr>
<td>Cynyddu canran y disgyblion Blwyddyn 9 sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg (Iaith Gyntaf)</td>
<td>Y canran o ddisgyblion Blwyddyn 9 sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg Iaith Gyntaf:
<table>
<tr><th>Blwyddyn</th><th>% Bl9 wedi eu hasesu yn Gymraeg Iaith 1af</th></tr>
<tr><td>2010</td><td>36.0%</td></tr>
<tr><td>2011</td><td>36.0%</td></tr>
<tr><td>2012</td><td>36.5%</td></tr>
<tr><td>2013</td><td>35.6%</td></tr>
<tr><td>2014</td><td>38.4%</td></tr>
<tr><td>2015</td><td>43%</td></tr>
</table>
Esboniad o ysgolion uwchradd yn y Sir- Cyfanswm ysgolion Uwchradd Sir Gar yn ôl diffiniadau yn Nogfen Gwybodaeth Llywodraeth Cymru 023/2007:
<table>
<tr><th>2A (AB)</th><th>3 ysgol uwchradd</th></tr>
<tr><td colspan="2">Strade - Llanelli<br>Bro Myrddin - Caerfyrddin<br>Maes y Gwendraeth - Cefneithin/Gwendraeth</td></tr>
</table>
<table>
<tr><th>2B (BB)</th><th>2 ysgol uwchradd</th></tr>
<tr><td colspan="2">Dyffryn Aman - Rhydaman<br>Bro Dinefwr – Llandeilo/Llanymddyfri</td></tr>
</table>
</td>
<td>Codi'r canran o ddisgyblion Blwyddyn 9 sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg Iaith Gyntaf:
<table>
<tr><th>2012</th><th>37%</th></tr>
<tr><td>2015</td><td>40%</td></tr>
<tr><td>2017</td><td>45%</td></tr>
</table>
*Wedi diwygio'r targed yn dilyn cynnydd arwyddocaol yn 2015.<br><br>
Sefydlu gorsaf ddwyieithog yn Llanelli.<br><br>
Cynnal a chodi nifer o bynciau a chynigir yn ddwyieithog i ddisgyblion Blynyddoedd 7, 8 a 9 ysgolion EM er mwyn symud ar hyd continwwm iaith yr awdurdod lleol.<br><br>
Cynnal hyfforddiant i deuluoedd ysgolion Coedcae, Bryngwyn Sant Ioan Llwyd, a Glan y Môr.<br><br>
Dadansoddi'n fanylach a thracio</td>
<td>Wedi cyrraedd targed 2017- wedi addasu i 45%.<br><br>
Mae'r uned MEP yn ymwybodol o leoedd mewn ysgolion a'r rhaglen i gynllunio ar gyfer twf.<br><br>
Mae cynllun buddsoddi yn y Strade wedi ei gwblhau a buddsoddiad Maes y Gwendraeth ar waith.<br><br>
Cefnogir ysgolion i ddarparu cwricwlwm eang yn y Gymraeg.</td>
</tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **3** (EW) \| **2 ysgol uwchradd**<br>Y Frenhines Elisabeth- Caerfyrddin<br>Dyffryn Taf - Hendy-gwyn<br><br>**4** (EM) \| **5 ysgol uwchradd**<br>*Bryngwyn*- Llanelli<br>*Coedcae*- Llanelli<br>*Glan-y-môr*- Porth Tywyn<br>*Ysgol Gatholig Sant Ioan Llwyd*- Llanelli<br>*Emlyn* - Castell Newydd Emlyn<br>Adran wedi ei ddiweddaru<br>Yn Coedcae, Bryngwyn, Glan-y-môr a Sant Ioan Llwyd, dysgir Cymraeg fel ail iaith yn unig. Mae ysgol Bryngwyn yn cynnig rhan o'r cwricwlwm yn ddwyieithog i ddisgyblion Blwyddyn 7. Mae hwn yn gynnydd diddorol a chanmoladwy ar hyd y continwwm.<br><br>Mae'r canran o ddisgyblion Blwyddyn 9 sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg Iaith Gyntaf yn un cymharol isel ond yn codi wrth i'r ysgolion uwchradd Categorïau Dwyieithog 2B gynyddu o ganlyniad i drawsnewid addysg uwchradd yn Ninefwr.<br><br>Hefyd yn sgil y Strategaeth bydd ysgolion yn gweithredu cynlluniau i sicrhau bod disgyblion yn parhau gyda rhaglenni iaith gyntaf ar ôl trosglwyddo i Gyfnod Allweddol 3. | dewisiadau/safonau Ysgolion 2B<br><br>Hyrwyddo a hwyluso addysg ddwyieithog wrth gynnal disgyblion B7 a B8- Prosiect AGGaD.<br><br>Sefydlu canolfan Beasley yn ysgol y Strade- haf 2014<br><br>Cydweithio mewn dwy ysgol 2A a 2B i dracio cynnydd plant o'r cynradd ym Ml. 7,8 a 9<br><br>Sefydlwyd dwy orsaf iaith yn ardal Cwm Gwendraeth i dargedu 75 disgybl i gysoni iaith trosglwyddo i GA3. | Cynllun ***Pontio Cynradd-Uwchradd*** a dreialwyd yn ysgolion cynradd Bro Dinefwr Haf 2015/2016<br><br>Parhau gyda'r ddarpariaeth Gorsafoedd Iaith yn ymateb i anghenion ardal |
| **Hyrwyddo trosglwyddo mwy effeithiol rhwng y cyfnod cyn ysgol i ddarpariaeth statudol.** | Bydd system tracio disgyblion y sir yn cynnwys y wybodaeth ar gyfer lleoliadau cyfrwng Cymraeg nas cynhelir a gyllidir ac ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog a gynhelir yn arf targedu ardaloedd.<br><br>Mae'r dilyniant ieithyddol rhwng y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 ysgolion cyfrwng Cymraeg yn 100% ac yn codi mewn ysgolion Dwy Ffrwd. Mae nifer yr ysgolion Dwy Ffrwd mewn trafodaethau gyda'r Awdurdod Lleol i symud ar hyd y continwwm tuag at fod yn Ysgolion Trawsnewidiol oherwydd y nifer o ddisgyblion sydd yn dewis addysg cyfrwng Cymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. | Sicrhau system tracio gadarn ar gyfer y lleoliadau- defnyddio'r data i dargedu ardaloedd<br><br>Parhau i dargedu a chefnogi ysgolion i symud ar hyd y continwwm | Parhau i dargedu a chefnogi ysgolion i symud ar hyd y continwwm. Cyd weithio gyda LIC ar y posibiliadau o greu ysgolion CS Cyfrwng gydag adran Iau yn darparu dewis iaith. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Hyrwyddo cyfran uwch o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn ysgolion dwyieithog**. | Defnyddir systemau tracio i fesur dilyniant ieithyddol rhwng darpariaeth cyfrwng Cymraeg a ariennir yn y sector cyn ysgol nas cynhelir a darpariaeth a gynhelir o fewn y Cyfnod Sylfaen<br><br>Defnyddir data, Fframwaith Rhanbarthol ar gyfer Cefnogaeth, Her ac Ymyrraeth, hyfforddiant a chyrsiau ar lawr y dosbarth i hyrwyddo cyfran uwch o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn ysgolion dwyieithog .<br>Yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 mae’r AGGaD, AS a’r ASC yn monitro cynnydd.<br><br>Rhwng Cyfnodau Allweddol 2/3 a 3/4 defnyddir data a systemau tracio, y Fframwaith Rhanbarthol Cefnogaeth, Her ac Ymyrraeth ac ymweliadau AS a ASC i fonitro cynnydd.<br><br>Ar draws y cyfnodau Allweddol bydd arolygiadau Llythrennedd a chraffu ar waith yn cael ffocws penodol ar ddilyniant ieithyddol.<br><br>Datblygu cyfleoedd pellach i ddysgwyr gynnal a gwella eu sgiliau iaith yn y Gymraeg mewn ysgolion dwyieithog wrth gyd weithio â phartneriaid yn y sir ac ar draws y rhanbarth i hyrwyddo manteision dysgu cyfrwng Cymraeg.<br><br>Cyfran y cwricwlwm a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion CC a Dwy Ffrwd yw o leiaf **70%** o amser addysgu.<br><br>Yn y sector uwchradd mae yna amrywiaeth ar draws y 12 ysgol.<br>Mae monitro’r ysgolion unigol o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn digwydd yn gyson trwy-<br><br>• Ymweliadau AS<br>• Hyfforddiant gan ASC<br>• Arolygon Llythrennedd<br>• AGGaD<br>• Fframwaith Rhanbarthol ar gyfer Cefnogaeth, Her ac Ymyrraeth<br><br>O ran cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion penodol | Gwella dilyniant ieithyddol ym mhob cyfnod addysg.<br><br>Parhau i gynnal arolygon llythrennedd rhanbarthol.<br>Cyd weithio ar draws y rhanbarth i rannu data, rhannu arfer da, sicrhau cysondeb a defnyddio arbenigedd i godi safonau<br>Cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion penodol<br><br>Codi ymwybyddiaeth rhieni. | Cyd weithio gyda Chymraeg i Oedolion.<br>Pecynnau hyfforddi gydag iaith addas wedi eu creu ar y cyd gyda’r AGGaD.<br>Cyrsiau wedi eu darparu ar draws y sir.<br><br>Defnydd o Rwyd a theclyn arsylwi gwersi a chraffu gwaith gan benaethiaid, athrawon a chynghorwyr her ar draws y rhanbarth i godi lefelau a sicrhau cysondeb<br><br>O ran cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion penodol yn y Cyfnod Sylfaen a CA2 mae’r AGGaD yn targedu ysgolion ac athrawon ar gyfer hyfforddiant amrywiol megis-<br><br>Modelu arfer da ar lawr y dosbarth<br>Hyfforddi oedolion a disgyblion ar lawr y dosbarth.<br><br>Targedu ar gyfer y cyrsiau Sabothol LIC |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | yn y Cyfnod Sylfaen a CA2 mae'r AGGaD yn targedu ysgolion ac athrawon ar gyfer hyfforddiant amrywiol megis-<br><br>• Modelu arfer da ar lawr y dosbarth<br>• Hyfforddi oedolion a disgyblion ar lawr y dosbarth<br>• Targedu ar gyfer y cyrsiau Sabothol LIC<br>• Cynnal darpariaeth ôl ofalaeth yn y dosbarth<br><br>Yn CA3 mae'r ddarpariaeth yn amrywio o ysgol i ysgol ond yn cynyddu wrth i'r ail strwythuro ymwreiddio.<br>Yn sgil y Strategaeth bydd ysgolion yn gweithredu cynlluniau i sicrhau bod disgyblion yn parhau gyda rhaglenni iaith gyntaf ar ôl trosglwyddo i GA3. | | Cynnal darpariaeth ôl ofalaeth yn y dosbarth |

## **Deilliant 3: Mwy o fyfyrwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg.**
## **Deilliant 4: Mwy o fyfyrwyr 16–19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith**

**Argymhellion Gweithgor y Cyfrifiad- Y Gymraeg yn Sir Gâr- yn ychwanegol o ganlyniad i waith Grŵp Iaith Gymraeg Sir Gâr**

***NOD: Cynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Gâr a sicrhau dilyniant ieithyddol o'r sector meithrin ar hyd y cyfnodau allweddol i'r sector uwchradd fel y daw pob disgybl yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg.***

**NOD: I brif ffrydio datblygiad yr iaith Gymraeg fel rhan ganolog o unrhyw gynlluniau datblygu economaidd o fewn Sir Gaerfyrddin**

**NOD: I gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y gweithle**

33. Bod y Cyngor Sir yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o swyddi'r Cyngor fesul adran er mwyn adnabod swyddi lle ddylai'r Gymraeg fod yn hanfodol. Dylid canolbwyntio yn y lle cyntaf ar swyddi sy'n darparu gwasanaeth uniongyrchol i'r cyhoedd.

39. Bod y Cyngor Sir yn sicrhau cefnogaeth a dilyniant priodol i staff o fewn y gweithle, er mwyn eu galluogi i symud ar hyd y continwwm gallu ieithyddol yn ôl y gofyn. Bydd hyn yn cynnwys y rheini sy'n dysgu am y tro cyntaf hyd at y rheini sydd eisiau gloywi eu hiaith. Dylai rheolwyr annog a chefnogi staff i ddatblygu eu sgiliau gan fonitro a chofnodi cynnydd a defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle fel rhan o'r broses arfarnu staff.

**NOD: I gynyddu ystod y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn ein cymunedau, yn enwedig ar gyfer plant a phobl ifanc er mwyn atgyfnerthu'r iaith y tu allan i furiau'r ysgol.**

45. Bod y Cyngor Sir, trwy'r Rhwydwaith 14-19 yn datblygu cyfleoedd profiad gwaith a phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg o fewn y gweithle i bobl ifanc gan gynyddu'r galw a'r gallu i'r sector breifat, gyhoeddus a gwirfoddol i weithredu yn ddwyieithog.

46. Bod y Cyngor Sir yn gweithio gyda Gyrfa Cymru trwy'r Rhwydwaith 14-19 i hyrwyddo anghenion y sector breifat o ran sgiliau dwyieithog.

**NOD: I gynyddu ystod y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn ein cymunedau, yn enwedig ar gyfer plant a phobl ifanc er mwyn atgyfnerthu'r iaith y tu allan i furiau'r ysgol.**

55. Bod y Cyngor Sir yn cydlynu grŵp gweithredu strategol fyddai'n cynnwys ysgolion uwchradd, mudiadau ieuenctid y sir, y sector addysg bellach ac uwch a'r sector hamdden i gynllunio a chysylltu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd gorau posib o'r adnoddau sydd ar gael o fewn y Sir, i dargedu adnoddau yn ôl y gofyn ac i adnabod unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth.

<table>
<tr><th>A. Amcan</th><th>B. Perfformiad cyfredol</th><th>C. Targedau</th><th>Ch. Cynnydd</th></tr>
<tr>
<td>Cynyddu canran y myfyrwyr 14-16 sy'n astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg.</td>
<td>
Mae'r canran y myfyrwyr (a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf) sy'n astudio ar gyfer 5 neu fwy o gymwysterau diwedd Blwyddyn 11 drwy gyfrwng y Gymraeg fel a ganlyn:
<table>
<tr><td>2010</td><td>55.0%</td></tr>
<tr><td>2011</td><td>60.0%</td></tr>
<tr><td>2012</td><td>56.1.%</td></tr>
<tr><td>2013</td><td>60%</td></tr>
<tr><td>2014</td><td>60.2%</td></tr>
<tr><td>2015</td><td>61.5% I'w gadarnhau</td></tr>
</table>
Ar yr un pryd mae'r canran y myfyrwyr (a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf) sy'n astudio ar gyfer 2 neu fwy o gymwysterau diwedd Blwyddyn 11 drwy gyfrwng y Gymraeg fel a ganlyn-
<table>
<tr><td>2010</td><td>68%</td></tr>
<tr><td>2011</td><td>70%</td></tr>
<tr><td>2012</td><td>83.9%</td></tr>
<tr><td>2013</td><td>87.7%</td></tr>
<tr><td>2014</td><td>91.6%</td></tr>
<tr><td>2015</td><td>88.3% I'w gadarnhau</td></tr>
</table>
Mae'r deilliant hwn yn cael ei gyflawni gan yr ysgolion uwchradd sydd yn dysgu Cymraeg iaith gyntaf a phynciau trwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghyfnod allweddol 4.<br><br>
Mae'r deilliant 5 pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg yn ddeilliant uchelgeisiol i'r patrwm o ysgolion uwchradd sydd gan y sir ar hyn o bryd. Wrth i nifer yr ysgolion Categori 2B gynyddu, megis yn Ninefwr, disgwylir i'r nifer o ddisgyblion sy'n astudio Cymraeg fel iaith gyntaf ac yn dilyn pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg gynyddu yn yr ysgolion
</td>
<td>
Cynyddu'r canran i-
<table>
<tr><td>2015</td><td>65%</td></tr>
<tr><td>2017</td><td>65%</td></tr>
</table>
* Wedi diwygio'r targed yn dilyn dadansoddiad o ganlyniad 2015 a rhagolygon ar gyfer 2017.<br><br>
Cynyddu'r canran i-
<table>
<tr><td>2015</td><td>89%</td></tr>
<tr><td>2017</td><td>90%</td></tr>
</table>
Cynyddu nifer y disgyblion sy'n dilyn cyrsiau Cymraeg iaith gyntaf yn ysgolion categori 2B, 2C a 2CH.
</td>
<td>
Gwelwyd cynnydd rhwng 2013 a 2015. Bydd effaith buddsoddiad ysgolion Bro Dinefwr a Maes y Gwendraeth yn eu hadlewyrchu yn y data yn y dyfodol.<br><br>
Symud ysgolion ar hyd y continwwm iaith-Ysgol Bro Myrddin i symud o gategori 2A i gategori 1-ymgynghori'n ffurfiol ar hyn o bryd.<br><br>
Cyd weithio ar draws y rhanbarth i greu a chydlynu adnoddau a gweithgareddau ar gyfer y fanyleb newydd. Eu rhannu ar wefan ERW.<br><br>
Defnyddio adnoddau crëwyd ar gyfer Siarter Sir Gâr cynradd i godi ymwybyddiaeth o fanteision dwyieithrwydd.
</td>
</tr>
</table>

<table>
<tr>
<td></td>
<td>hynny gan gynyddu’r nifer a’r ganran fydd yn dilyn 2 neu fwy o gymwysterau trwy’r Gymraeg<br>Paragraff wedi ei golygu</td>
<td></td>
<td></td>
</tr>
<tr>
<td>Sicrhau bod darpariaeth i ddysgwyr 14-16 oed yn cydymffurfio â’r Mesur Dysgu a Sgiliau Cymru 2009.</td>
<td>Mae’r ddarpariaeth yn digwydd yn y tair ysgol Categori 2A yn bennaf ar hyn o bryd, gydag ychydig yn digwydd yn yr ysgolion Categori 2C a 2Ch. Fe ddarperir nifer o gyrsiau galwedigaethol 14-16 ar safleoedd Coleg Sir Gâr hefyd. Bydd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn datblygu ac yn cynyddu mewn ysgolion trwy gydweithio a’i gilydd. Bydd strwythur rheolaeth addysg 14-19 yn y Sir, a ddisgrifir isod, yn goruchwylio’r cynnydd a’r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Bydd hyn yn sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio gyda gofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau.<br><br>Mae Rhwydwaith 14-19 Sir Gaerfyrddin wedi darparu prosbectws o gyrsiau ar gyfer disgyblion 14-19. Mae’n marchnata'r cyrsiau sydd ar gael gan gynnwys y rhai cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Hefyd dyrennir cyllid penodol, cyfran o’r grant 14-19, ar gyfer hyrwyddo sefydlu a datblygu cyrsiau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Dylid nodi bod y Sir yn darparu cyllid ychwanegol i ysgolion trwy’r fformiwla cyllid yn ôl cyfran y pynciau a gynigir trwy’r Gymraeg ar draws yr ystod oedran. Mae hyn wedi hyrwyddo darparu dysgu cyfrwng Cymraeg yn yr ysgolion.</td>
<td>Parhau gyda’r ddarpariaeth yn ysgolion categori 2A. Cynyddu’r ddarpariaeth yn ysgolion 2B a 2C.<br><br>Cwrdd â gofynion newydd addysg 14-19, 2014</td>
<td>Parhau gyda’r ddarpariaeth a chodi dealltwriaeth o fanteision dwyieithrwydd. Cychwyn ar Siarter Iaith Uwchradd ar y cyd gyda Gwynedd.</td>
</tr>
<tr>
<td>Cynyddu canran y myfyrwyr 16-19 oed sy’n astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion.</td>
<td>Canran y myfyrwyr 16-19 sy’n astudio 2 neu fwy o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg/dwyieithog (e.e. elfennau o gymwysterau/modiwlau):
<table>
<tr><td>2010</td><td>29%</td></tr>
<tr><td>2011</td><td>38%</td></tr>
<tr><td>2012</td><td>30.9%</td></tr>
<tr><td>2013</td><td>31.3%</td></tr>
<tr><td>2014</td><td>33.8%</td></tr>
<tr><td>2015</td><td>30.34</td></tr>
</table>
Eto, fel gyda deilliannau sydd yn benodol i Gyfnod Allweddol 4, dyma elfen anodd ei datblygu a’i chynyddu y tu allan i’r 3 ysgol Categori 2A.</td>
<td>Cynyddu canran y myfyrwyr 16-19 oed sy’n astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion 2A a 2B.
<table>
<tr><td>2017</td><td>35%</td></tr>
</table>
* Wedi diwygio’r targed yn dilyn dadansoddiad o ganlyniad 2015 a rhagolygon ar gyfer 2017.<br><br>Parhau i gynyddu’r elfennau o’r cwrs Bagloriaeth Cymru a gyflwynir trwy gyfrwng y Gymraeg</td>
<td>Cynnal arolwg defnydd iaith. Cyd weithio gyda Mentrau a Trywydd i geisio codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o bwysigrwydd parhau i astudio pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg.</td>
</tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae'r ysgolion naturiol dwyieithog yn cael eu hannog i gyflwyno elfennau neu holl agweddau'r Fagloriaeth Cymru trwy gyfrwng y Gymraeg i ddisgyblion nad ydynt yn dilyn eu pynciau dewis trwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Mae swyddogion y Sir, trwy'r strwythur o gyfarfodydd rheoli yn cyd-weithio gydag ysgolion a rheolwyr Coleg Sir Gâr a darparwyr eraill, megis y mentrau iaith, i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd ar gael ar gyfer myfyrwyr ôl 16.<br><br>Mae ysgolion y Bartneriaeth Addysg Gymraeg, sef y tair ysgol Categori 2A, wedi arloesi trwy gyd-weithio i gynyddu'r ddarpariaeth o gyrsiau galwedigaethol a'r arlwy mwy traddodiadol. Mae'r Bartneriaeth yn darparu cyrsiau yn yr ystod oedran 16-19 yn bennaf.<br><br>Mae swyddog o'r Awdurdod yn mynychu cyfarfodydd o'r Fforwm yn y de-orllewin. Mae penaethiaid ysgolion Categori 2A Sir Gaerfyrddin yn aelodau ffyddlon o'r Fforwm ac maent wedi arloesi trwy ddatblygu ar waith eu Partneriaeth hwy a Choleg Sir Gâr a chynnal partneriaethau traws-ffiniol i gynnal cyrsiau cyfrwng Cymraeg mwy traddodiadol a galwedigaethol. Bydd hyn yn cyfrannu at sicrhau bod yr ysgolion yn cyflawni gofynion y Mesur Addysg a Sgiliau ac yn sicrhau cyrsiau cynaliadwy. | i ddisgyblion nad ydynt yn dilyn eu pynciau dewis trwy gyfrwng y Gymraeg. | Datblygu strwythur ffurfiol o gyd weithio ar draws y rhanbarth yn ymarferol ac yn rhwydweithiol |
| **Gweithio drwy rwydweithiau ardal 14-19 a Fforymau 14-19 er mwyn cynnal a gwella darpariaeth cyfrwng Cymraeg.** | Mae darnau perthnasol yn y sylwadau blaenorol ac isod yn berthnasol i'r cwestiwn hwn.<br>Mae Grŵp Gweithredol 14-19 y rhwydwaith yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Awdurdod, penaethiaid ysgol uwchradd ac uwch reolwyr Coleg Sir Gâr. Dyma'r grŵp sydd yn goruchwylio'r ddarpariaeth alwedigaethol, gan gynnwys y ddarpariaeth Gymraeg ar draws y Sir. Mae cynrychiolwyr yn mynychu cyfarfodydd o dri chlwstwr ardal a'r Bartneriaeth cyfrwng Cymraeg traws-glwstwr sydd yn cyfarfod yn rheolaidd i gynllunio a gweithredu'r ddarpariaeth. Mae cyd bwyllgor llywodraethwyr yn goruchwylio gwaith pob clwstwr a phartneriaeth. Dyma'r sianelau sydd yn hyrwyddo a chefnogi'r datblygiadau cyfrwng Cymraeg. | Parhau i gyd weithio drwy Fforymau 14-19 er mwyn cynnal a gwella darpariaeth cyfrwng Cymraeg. | Parhau i gyd weithio drwy Fforymau 14-19 er mwyn cynnal a gwella darpariaeth cyfrwng Cymraeg. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Casglu a defnyddio data ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg 14-19**<br>**Cynllunio ar gyfer darpariaeth ôl-16 o fewn partneriaethau.** | Mae'r strwythur rheoli a ddisgrifiwyd ar gyfer y cwestiwn blaenorol yn monitro'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ystod oedran 14-19. Hefyd mae'r grŵp sicrhau ansawdd yn casglu gwybodaeth, gan gynnwys barn disgyblion a thrwy arsylwi gwersi, er mwyn llunio adroddiad hunan-arfarnu blynyddol. Rhoddir sylw i'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y gweithgareddau hyn.<br><br>Ar gyfer pob cyfarfod a ddisgrifiwyd yn y strwythur uchod mae penaethiaid a rheolwyr cwricwlwm yr ysgolion a'r Coleg yn cyd-drafod. Trwy hyn, fe ddarperir at ofynion disgyblion yr ysgolion o ran cyfrwng a llwybrau dysgu unigol. Fe ychwanegir at y ddarpariaeth yn flynyddol.<br><br>Ychydig iawn o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd ar gyfer disgyblion 14-19 oed yn y gweithle ac eithrio mewn maes addysg a datblygiad plentyn.<br><br>Lluniwyd prosbectws papur ac electroneg o gyrsiau 14-19 a ddarperir yn ysgolion a choleg Sir Gâr. Swyddogion yr Awdurdod fu'n arwain a rheoli'r gwaith hwn. Mae cyfrwng yr addysgu yn cael ei nodi ar gyfer pob cwrs. Nid yw'r prosbectws yn cynnwys y ddarpariaeth yn y gweithle. | Parhau i ymateb i ofynion disgyblion o ran cyfrwng a llwybrau dysgu unigol a'u monitro'n gyson. | Siarter Iaith Uwchradd i wneud arolwg darpariaeth ôl 16.<br><br>Parhau i ymateb i ofynion disgyblion o ran cyfrwng a llwybrau dysgu unigol a'u monitro'n gyson.<br><br>Wedi pennu swyddog cyd lynu gan ddefnyddio grant Bwrw Ymlaen. Gwaith y swyddog ydy i greu llwybrau llyfn rhwng ysgolion, y colegau a'r gweithle.<br><br>Tynnu sylw'r gweithle o bwysigrwydd a'r manteision o gynnal cyfleoedd Cyfrwng Cymraeg |

## **Deilliant 5:** Mwy o fyfyrwyr ag uwch sgiliau iaith yn y Gymraeg

**Argymhellion Gweithgor y Cyfrifiad- Y Gymraeg yn Sir Gâr- yn ychwanegol o ganlyniad i waith Grŵp Iaith Gymraeg Sir Gâr**

**NOD: I gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y gweithle**

33. Bod y Cyngor Sir yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o swyddi'r Cyngor fesul adran er mwyn adnabod swyddi lle ddylai'r Gymraeg fod yn hanfodol. Dylid canolbwyntio yn y lle cyntaf ar swyddi sy'n darparu gwasanaeth uniongyrchol i'r cyhoedd.

39. Bod y Cyngor Sir yn sicrhau cefnogaeth a dilyniant priodol i staff o fewn y gweithle, er mwyn eu galluogi i symud ar hyd y continwwm gallu ieithyddol yn ôl y gofyn. Bydd hyn yn cynnwys y rheini sy'n dysgu am y tro cyntaf hyd at y rheini sydd eisiau gloywi eu hiaith. Dylai rheolwyr annog a chefnogi staff i ddatblygu eu sgiliau gan fonitro a chofnodi cynnydd a defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle fel rhan o'r broses arfarnu staff.

**NOD: I brif ffrydio datblygiad yr iaith Gymraeg fel rhan ganolog o unrhyw gynlluniau datblygu economaidd o fewn Sir Gaerfyrddin.**

45. Bod y Cyngor Sir, trwy'r Rhwydwaith 14-19 yn datblygu cyfleoedd profiad gwaith a phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg o fewn y gweithle i bobl ifanc gan gynyddu'r galw a'r gallu i'r sector breifat, gyhoeddus a gwirfoddol i weithredu yn ddwyieithog.

46. Bod y Cyngor Sir yn gweithio gyda Gyrfa Cymru trwy'r Rhwydwaith 14-19 i hyrwyddo anghenion y sector breifat o ran sgiliau dwyieithog.

**NOD: I gynyddu ystod y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn ein cymunedau, yn enwedig ar gyfer plant a phobl ifanc er mwyn atgyfnerthu'r iaith y tu allan i furiau'r ysgol.**

56. Bod y grŵp gweithredu strategol yn sicrhau ei fod yn datblygu cyfleoedd cymunedol cyfrwng Cymraeg a fydd yn cefnogi ac yn atgyfnerthu'r cwricwlwm addysgol.

57. Bod y Cyngor Sir yn cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn ei wasanaeth ieuenctid ac yn cefnogi staff o fewn y gwasanaeth i ddatblygu eu sgiliau i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg.

58. Yn unol ag argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Glybiau Ieuenctid (Ionawr 2014) blaenoriaethu cynyddu darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg fel rhan o'r ymagwedd strategol newydd drwy gomisiynu rhai sefydliadau sy'n darparu gwasanaeth ieuenctid agored trwy gyfrwng y Gymraeg.

65. Bod y Cyngor Sir yn cydweithio’n agosach gyda Theatr Genedlaethol Cymru er mwyn cynnig cyfleoedd cymunedol cyfrwng Cymraeg;

66. Bod y Cyngor Sir yn denu a hyrwyddo perfformiadau Cymraeg a dwyieithog o fewn eu theatrau sirol.

| A. Amcan | B. Perfformiad cyfredol | C. Targedau | Ch. Cynnydd |
|---|---|---|---|
| **Gwella gwaith sgiliau llythrennedd Cymraeg.** | Cydymffurfio gyda Strategaeth Llythrennedd Sir Gaerfyrddin.<br><br>**Bwriad 1**: ***Holl ysgolion Sir Gaerfyrddin yn parhau i godi cyraeddiadau pob disgybl er mwyn sicrhau eu bod i gyd yn cyflawni eu potensial.***<br><br>**Ein nod yw i:**<br>• gefnogi a herio safon y dysgu ac addysgu er mwyn gwella ansawdd gwaith disgyblion unigol a holl ysgolion yr awdurdod lleol;<br>• datblygu a chefnogi arweinyddion system llythrennedd Cymraeg;<br>• hyrwyddo rhannu arfer da ar draws yr Awdurdod Lleol, ERW ac o fewn teuluoedd;<br>• cynorthwyo wrth ddatblygu a chefnogi Cymunedau Dysgu Proffesiynol ar draws yr Awdurdod Lleol;<br>• canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau i bob dysgwr yn unol â’r Fframwaith Sgiliau 3-19 gan roi arweiniad ar addysg ddatblygiadol;<br>• rhoi arweiniad a chymorth i ddatblygu dysgwyr annibynnol;<br>• trefnu a chefnogi cyfarfodydd traws gyfnod o fewn ysgolion, ar draws teuluoedd i hybu dilyniant a chynnydd;<br>• codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant ar gyfer defnydd o Dechnoleg Gwybodaeth i wella safonau;<br>• sicrhau bod systemau effeithiol wedi eu gosod er mwyn asesu, tracio, recordio a chymedroli a safonau.<br><br>**Bwriad 2: *I gynorthwyo ysgolion Sir Gaerfyrddin ar y matrics Fframwaith Cymorth a Her sydd fwyaf angen codi safonau llythrennedd Cymraeg.***<br><br>**Ein nod yw i:**<br>• darparu hyfforddiant arbennig a chefnogaeth i’r ysgolion a enwir.<br><br>**Bwriad 3: *I sicrhau fod disgyblion isel eu cyrhaeddiad yn llwyddo i symud ymlaen tuag at safon llythrennedd fydd yn eu galluogi i elwa ar*** | Targedi ysgolion sydd fwyaf angen codi safonau llythrennedd Cymraeg.<br><br>Parhau i gynnal hyfforddiant ar gyfer rhaglenni ymyrryd | Adroddiad data ar gael. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ***gyfleodd addysgiadol a dod yn aelodau cyfrifol sy'n cyflawni eu potensial.***<br><br>**Ein nod yw i:**<br>• estyn cyngor i ysgolion ar sut i gefnogi grwpiau bydd angen cymorth gyda llythrennedd Cymraeg;<br>• cynnig cyngor ynglŷn ag hyfforddiant a pharatoi rhaglenni ymyrru'n gynnar;<br>• cynnig arweiniad i ysgolion ar ffyrdd i gymell rhieni i gefnogi eu plant. | fel Llythrennau a Synau, Dyfal Donc. | |
| | **Bwriad 4: *I ddatblygu a meithrin agweddau hunan arfarnu beirniadol.***<br><br>**Ein nod yw i:**<br>• cefnogi ysgolion yn y broses o hunan arfarnu i sicrhau datblygu arfer da mewn llythrennedd Cymraeg;<br>• weithio gydag ysgolion/teuluoedd i adnabod, cefnogi a meithrin arweinwyr system;<br>• weithio gydag ysgolion/teuluoedd i gefnogi a meithrin Cymunedau Dysgu Proffesiynol effeithiol. | Datblygu a meithrin hunan arfarnu beirniadol. | |
| | **Bwriad 5: *I weithio gydag ysgolion a darparwyr addysg i godi ymwybyddiaeth y teulu a'r gymuned eang i fynd i'r afael ag anfanteision economaidd cymdeithasol sydd yn rhwystro cynyddu safonau yn y Gymraeg.***<br><br>**Ein nod yw i:**<br>• gydweithio gyda rhieni/gofalwyr i'w galluogi i helpu datblygiad llythrennedd Cymraeg eu plant yn y cartref a'r ysgol;<br>• gydweithio gyda'r Mentrau Iaith i helpu ysgolion i ddatblygu ysgolion fel canolfannau dysgu o fewn eu cymuned. | Parhau i weithio gydag ysgolion a darparwyr addysg i godi ymwybyddiaeth y teulu a'r gymuned eang i fynd i'r afael ag anfanteision economaidd cymdeithasol sydd yn rhwystro cynyddu safonau yn y Gymraeg. | |
| | **Bwriad 6- *Pob dysgwr yn mwynhau profiadau creadigol newydd***<br><br>**Ein nod yw i:**<br>• annog pob ysgol/teulu i barhau i weithio'n agos gyda Llyfrgelloedd, Amgueddfeydd, Theatr Mewn Addysg. | | |

**Gwella darpariaeth a safonau Cymraeg Iaith Gyntaf.**

**Canran o ddisgyblion diwedd y Cyfnod Sylfaen sy'n cyrraedd Deilliant 5 mewn Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg (ysgolion Cyfrwng Cymraeg, Trawsnewidiol a Dwy Ffrwd):**

| Blwyddyn | Cyfnod Sylfaen yn cyrraedd Deilliant 5 Cymraeg | Cyfartaledd rhanbarth | Cyfartaledd Cymru |
|---|---|---|---|
| 2012 | 85.40% | 84.50% | 85.93% |
| 2013 | 86.2% | 86.6% | 86.2% |
| 2014 | 89.2% | 90.2% | 89.2% |
| 2015 | 91.4% | 92.2% | 91.4% |

**Canran o ddisgyblion diwedd CA2 sy'n cyrraedd L4+ :**

| Blwyddyn | CA2 yn cyrraedd L4+ Cymraeg | Cyfartaledd rhanbarth | Cyfartaledd Cymru |
|---|---|---|---|
| 2010 | 75.1% | 80% | 81% |
| 2011 | 80.5% | 82% | 82% |
| 2012 | 83% | 87% | 84% |
| 2013 | 84.5% | 85.8% | 86.7% |
| 2014 | 84.4% | 87.3% | 88.1% |
| 2015 | 88.6% | 89.5% | 90.5% |

**Canran y disgyblion diwedd CA3 sy'n cyrraedd Lefel 5 ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg:**

| Blwyddyn | CA3 yn cyrraedd L5+ Cymraeg | Cyfartaledd rhanbarth | Cyfartaledd Cymru |
|---|---|---|---|
| 2010 | 72.70% | 78% | 77% |
| 2011 | 82.30% | 84% | 81% |

Targed i godi'r canran:

| | |
|---|---|
| 2015 | 92% |
| 2017 | 93% |

Hyrwyddo dilyniant o raglen Llythrennau a Synau yn y Cyfnod Sylfaen fel rhan o brosiect codi safonau Sir Gâr

Codi'r canran:

| | |
|---|---|
| 2015 | 89% |
| 2017 | 90% |

Codi'r canran:

| | |
|---|---|
| 2015 | 86% |
| 2017 | 88% |

0.6% o dan y targed
Parhau i hyrwyddo dilyniant o raglen Llythrennau a Synau yn y Cyfnod Sylfaen fel rhan o brosiect codi safonau Sir Gâr

Targedu ysgolion wedi ymweliadau Ymgynghorwyr her a chynnal hyfforddiant penodol ERW

Targed 2015 heb gyrraedd o 0.4%. Parhau i dargedu a lledu arfer da wrth weithio yn sgol Donaldson o ysgol i ysgol

Targed wedi ei gyrraedd- parhau i dargedu a lledu arfer da wrth weithredu syniadau Donaldson o ran cefnogaeth ysgol i ysgol, cydweithio,

<table>
<tr>
<td></td>
<td>
<table>
<tr><td>2012</td><td>83.00%</td><td>86%</td><td>84%</td></tr>
<tr><td>2013</td><td>83.6%</td><td>86.8%</td><td>87.6%</td></tr>
<tr><td>2014</td><td>88.7%</td><td>90%</td><td>90.1%</td></tr>
<tr><td>2015</td><td>86.5%</td><td>89.2%</td><td>90.9%</td></tr>
</table>
<br>
Canran o ddisgyblion diwedd CA4 sy’n cyrraedd graddau A*-C TGAU Cymraeg.
<br>
<table>
<tr><td>2011</td><td>74.4%</td></tr>
<tr><td>2012</td><td>73.0%</td></tr>
<tr><td>2013</td><td>72.9%</td></tr>
<tr><td>2014</td><td>69.1%</td></tr>
<tr><td>2015</td><td>72.3%</td></tr>
</table>
<br>
Er mwyn ceisio gwella safonau cyrhaeddiad bwriedir parhau i :
<br>
• fonitro a thargedu ysgolion wrth ddefnyddio’r Gwasanaeth Athrawon Gwella’r Gymraeg a Dwyieithrwydd yn y sector cynradd yn ogystal ag Arweinyddion System ac Arweinyddion System Cysylltiol<br>
• cynnal archwiliad o lefelau/oed darllen Cyfnod Allweddol 2<br>
• monitro prosiectau ymyrryd yn gyson<br>
• sylweddoli newidiadau yn ystadegau Cyfnodau Allweddol 3 a 4 wedi sefydlu ysgol 2B ardal Dinefwr yn 2013.<br>
• dilyn amserlen ranbarthol safoni a chymedroli llythrennedd<br>
• targedu ysgolion sydd angen cymorth ychwanegol yn ôl y matrics Fframwaith Rhanbarthol.
</td>
<td>
Codi’r canran<br>
A* - C TGAU Cymraeg:
<table>
<tr><td>2015</td><td>75%</td></tr>
</table>
* Wedi diwygio’r targed yn dilyn dadansoddiad o ganlyniad 2015 a rhagolygon ar gyfer 2017.
<br><br>
Parhau i fonitro data a gosod targedau.<br>
Ymateb i ganlyniadau’r arolwg llythrennedd gan Arweinyddion System
</td>
<td>
rhannu arfer dda a chymedroli ‘n rhanbarthol.
<br><br>
Dal o dan y targed. Parhau i fonitro a gosod targedau. Cyd weithio ar draws y rhanbarth i rannu arfer da
</td>
</tr>
<tr>
<td>Cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr o bob oedran i ymarfer eu Cymraeg tu allan i’r ystafell ddosbarth.</td>
<td>
Mae nifer o brosiectau gan ysgolion, Mentrau Iaith, Bwrdd yr Iaith, Mudiad Meithrin, Estyn Llaw, Urdd Gobaith Cymru, Pwyllgor Ieuenctid, Clybiau Ffermwyr Ifanc a Chymraeg i Oedolion yn datblygu cyfleoedd dysgu ac addysgu ffurfiol ac anffurfiol sy’n gynhwysfawr a chynaliadwy. Maent yn atgyfnerthu ac yn gwireddu’r nod o sicrhau disgyblion rhugl dwyieithog, yn ogystal â meithrin cydweithrediad rhwng partneriaid allweddol er mwyn sicrhau parhad a dilyniant mewn cyfleoedd dysgu.
<br><br>
Darperir cyrsiau preswyl yr Urdd a nifer helaeth o glybiau ar ôl ysgol yn y Cyfnod Sylfaen/Cyfnodau Allweddol 2/3/4
</td>
<td>Codi ymwybyddiaeth ysgolion o’r cyfleoedd datblygu defnydd anffurfiol o’r Gymraeg yn dymhorol.</td>
<td>Cyd weithio gyda’r Mentrau Iaith ac AGGaD trwy’r Siarter Codi Caerau</td>
</tr>
</table>

<table>
<tr>
<td rowspan="2">Gwella darpariaeth a safonau Cymraeg Ail Iaith.</td>
<td>Canran y disgyblion diwedd CA2 sy’n cyrraedd o leiaf L4 mewn Cymraeg Ail Iaith:<br>
<table>
<tr><td>2011</td><td>58.4%</td></tr>
<tr><td>2012</td><td>51.4%</td></tr>
<tr><td>2013</td><td>61.1%</td></tr>
<tr><td>2014</td><td>69.1%</td></tr>
<tr><td>2015</td><td>72.3%</td></tr>
</table>
<br>Wrth gymedroli Clwstwr Cyfnod Allweddol 2/3 ar godi safonau Cymraeg Ail Iaith ar draws ysgolion nodir y pwyntiau yma:<br>
<br>• Ail ystyriwyd y Cynlluniau Gwaith Ail Iaith er mwyn sicrhau bod y tasgau a osodwyd yn ddigon heriol i ganiatáu tystiolaeth ar lefelau 4/5;<br>
• Dilyniant a pharhad drwy’r ysgol o ran y patrymau iaith a gyflwynir;<br>
• Angen disgwyliadau uchel o ran yr athrawon;<br>
• Angen gwell dealltwriaeth o’r disgrifiadau lefel Ail Iaith –Llafar, Darllen ac Ysgrifennu;<br>
• Codwyd statws y Gymraeg fel Ail Iaith yn yr ysgolion cyfrwng Saesneg;<br>
• Pwysigrwydd safoni a chymedroli ar draws ysgolion, teulu, Awdurdod Lleol ac ERW.</td>
<td>Parhau i godi’r canran o ddisgyblion sy’n cyrraedd o leiaf Lefel 4 mewn Cymraeg Ail Iaith ar ddiwedd CA2:<br>
<table>
<tr><td>2015</td><td>64%</td></tr>
<tr><td>2017</td><td>75%</td></tr>
</table>
<br>* Wedi cynyddu’r targed yn dilyn dadansoddiad o ganlyniad 2015 a rhagolygon ar gyfer 2017.</td>
<td>Targedau wedi cyflawni<br><br>Cymedroli ar draws y sir a chymedroli ar draws ERW. Lansio Siarter Ail Iaith i godi ymwybyddiaeth yn 2016</td>
</tr>
<tr>
<td>Canran y disgyblion diwedd Cyfnod Allweddol 3 sy’n cyrraedd Lefel 5 mewn Cymraeg Ail Iaith:<br>
<table>
<tr><td>2010</td><td>52.9%</td></tr>
<tr><td>2011</td><td>61.8%</td></tr>
<tr><td>2012</td><td>63.5%</td></tr>
<tr><td>2013</td><td>70.6%</td></tr>
<tr><td>2014</td><td>76.6%</td></tr>
<tr><td>2015</td><td>80.9%</td></tr>
</table>
<br>Cynnydd sylweddol dros gyfnod.</td>
<td>Parhau i godi’r canran o ddisgyblion sy’n cyrraedd o leiaf Lefel 5 mewn Cymraeg Ail Iaith ar ddiwedd CA3:<br>
<table>
<tr><td>2015</td><td>72%</td></tr>
<tr><td>2017</td><td>85%</td></tr>
</table>
<br>* Wedi cynyddu’r targed yn dilyn dadansoddiad o ganlyniad 2015 a rhagolygon ar gyfer 2017.</td>
<td>Targed wedi cyflawni Adlewyrchiad o’r mewnbwn gan AGGAD a’r cyd weithio rhwng y Cynradd ac Uwchradd ar draws ERW</td>
</tr>
</table>

<table>
<tr>
<td></td>
<td>Canran y disgyblion diwedd Cyfnod Allweddol 4 sy'n cyrraedd graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg Ail Iaith Cwrs Llawn:<br><table><tr><td>2010</td><td>67.7%</td></tr><tr><td>2011</td><td>69.7%</td></tr><tr><td>2012</td><td>67.0%</td></tr><tr><td>2013</td><td>69.8%</td></tr><tr><td>2014</td><td>78.2%</td></tr><tr><td>2015</td><td>79.5%</td></tr></table><br>Canran y disgyblion diwedd Cyfnod Allweddol 4 sy'n cyrraedd graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg Ail Iaith Cwrs Byr –<br><table><tr><td>2010</td><td>77%</td></tr><tr><td>2011</td><td>69%</td></tr><tr><td>2012</td><td>0%</td></tr><tr><td>2013</td><td>0%</td></tr><tr><td>2014</td><td>0%</td></tr><tr><td>2015</td><td>0%</td></tr></table></td>
<td>Parhau i godi'r canran o ddisgyblion sy'n cyrraedd graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg Ail Iaith Cwrs Llawn ar ddiwedd CA4:<br><table><tr><td>2015</td><td>80%</td></tr><tr><td>2017</td><td>82%</td></tr></table><br>* Wedi cynyddu'r targed yn dilyn dadansoddiad o ganlyniad 2015 a rhagolygon ar gyfer 2017.<br><br>Cynnal y canrannau Cymraeg Ail Iaith wrth sicrhau codi canrannau Cymraeg Iaith Gyntaf<br><br>Parhau i sicrhau nad oes disgyblion yn sefyll Cymraeg Ail Iaith Cwrs Byr.</td>
<td>O fewn cyrraedd y targed- sicrhau cynnal y safonau ail iaith gan sicrhau cynnydd ym mamiaith yn ogystal.</td>
</tr>
<tr>
<td>Cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr o bob oedran i ymarfer eu Cymraeg tu allan i'r ystafell ddosbarth.</td>
<td>Datblygir defnydd achlysurol o'r Gymraeg mewn ysgolion Cyfrwng Saesneg cynradd:<br><br>• Targedir athrawon prin eu Cymraeg gan Athrawon Gwella'r Gymraeg a Dwyieithrwydd a'u hyfforddi ar lawr y dosbarth;<br>• Dilyniant cyrsiau sabothol;<br>• Hyfforddi i ddefnyddio pecynnau ar gyfer defnydd achlysurol o'r Gymraeg gan gynnwys gemau ac iaith y buarth;<br>• Cyrsiau i oedolion yn seiliedig ar iaith achlysurol y dosbarth;<br>• Rhaglenni gwobrwyo defnydd achlysurol ar lawr y dosbarth ac o gwmpas yr ysgol;<br>• Cyd weithio gyda phwyllgorau Ieuenctid;<br>• Cyd-greu posteri iaith ar gyfer defnydd achlysurol;<br>• Eisteddfodau;<br>• Cyngherddau;</td>
<td>Yn flynyddol, cynyddu'r nifer o athrawon sy'n defnyddio'r iaith yn achlysurol naturiol yn yr ysgol.<br><br>Creu awyrgylch ac ethos Cymraeg a Chymreig yn ddyddiol.</td>
<td>Siarter Iaith Sir Gar 'Codi Caerau' yn gerbyd i gynyddu cyfleoedd i ddisgyblion, staff a rhieni i ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i'r ystafell ddosbarth.<br><br>Adnabod a recriwtio athrawon a chynorthwywyr dysgu ar gyfer y Cyrsiau Sabothol lefelau Mynediad, Sylfaen ac</td>
</tr>
</table>

<table>
<tr>
<td></td>
<td>

- Clybiau;
- Teithiau addysgol;

Mae yna nifer o brosiectau gan y Mentrau Iaith a Bwrdd yr Iaith mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yr awdurdod lleol e.e. 'Blas ar Gymru' ar gyfer hwyrddyfodiaid a'u teuluoedd.

Ar gyfer disgyblion uwchradd disgwylir bod digwyddiadau ar lefel clwstwr neu yn draws sirol a drefnir gan yr Awdurdod ac ysgolion yn cael eu cynnal yn ddwyieithog lle mae cyfle i ddisgyblion di-gymraeg a dysgwyr i glywed y Gymraeg yn cael ei defnyddio. Bydd hyn yn cynnwys digwyddiadau yn ymwneud â'r fforwm ieuenctid, addysg iechyd, cyffuriau, gyrfau, ac ati. Yn yr un modd disgwylir bod ymwelwyr ag ysgolion yn defnyddio'r Gymraeg ar bob cyfle posibl ac yn hyrwyddo'r manteision o addysg ddwyieithog.
</td>
<td></td>
<td>
Uwch.<br><br>AGGaD yn cyfrannu arbenigedd iaith a methodoleg yn ystod cyrsiau.<br><br>Cefnogi ymarferwyr nôl yn eu hysgolion<br><br>Cyflwyno sesiynau blynyddol ar fethodolegau cyflwyno Ail iaith i fyfyrwyr ail flwyddyn y cwrs BAdd
</td>
</tr>
<tr>
<td>Cynyddu cofrestriadau Cymraeg Safon Uwch Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith fel canran o gofrestriadau TGAU Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith.</td>
<td>
Y canran o ymgeiswyr TGAU Cymraeg sy'n mynd ymlaen i astudio Safon Uwch:
<table>
<tr><td>2010</td><td>7.0%</td></tr>
<tr><td>2011</td><td>7.0%</td></tr>
<tr><td>2012</td><td>4.5%</td></tr>
<tr><td>2013</td><td>5.4%</td></tr>
<tr><td>2014</td><td>4.5%</td></tr>
<tr><td>2015</td><td>4.2%</td></tr>
</table>
Y canran o ymgeiswyr Cymraeg Ail Iaith sy'n mynd ymlaen i astudio Safon Uwch:
<table>
<tr><td>2010</td><td>4.00%</td></tr>
<tr><td>2011</td><td>3.00%</td></tr>
<tr><td>2012</td><td>3.60%</td></tr>
<tr><td>2013<br>2014<br>2015</td><td>2.5%<br>3.2%<br>2.55%</td></tr>
</table>
Byddai'n ddymunol iawn petai'r awdurdod ac ysgolion unigol yn medru cynyddu'r nifer o fyfyrwyr 16+ sydd yn dilyn Cymraeg fel pwnc arholiad iaith
</td>
<td>
Mae'r mater hwn yn creu consyrn i ni yn Sir Gar ond credwn ei fod yn adlewyrchu'r sefyllfa ar draws Cymru.
<table>
<tr><td>2015</td><td>6%</td></tr>
<tr><td>2017</td><td>6%</td></tr>
</table>
Er hynny ein nod yw cynyddu'r garfan o ymgeiswyr TGAU Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith sy'n mynd ymlaen i astudio Safon Uwch.
<table>
<tr><td>2015</td><td>3%</td></tr>
<tr><td>2017</td><td>3%</td></tr>
</table>
</td>
<td>
Gwaith ymchwil yn digwydd i sicrhau cywirdeb data TGAU a throsglwyddo i Ôl 16-deall y rhesymau am leihad yn y nifer sy'n astudio Safon Uwch- natur y cwrs, dewis unigol...<br><br>Cyd weithio gyda choleg Sir Gâr i wella dealltwriaeth o ddata safon uwch ar draws y sir. Hyfforddiant y cyd ar draws y rhanbarth i rannu arferion o ysbrydoli myfyrwyr i barhau i astudio Safon Uwch.
</td>
</tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gyntaf neu ail iaith.  Nid yw'n hawdd gwneud hyn ond ein gobaith yw y bydd hyn yn digwydd yn naturiol wrth i gynnydd yn y Gymraeg ddigwydd gyda gweithredu'r Strategaeth Cymraeg o'r Cyfnod Sylfaen hyd 19 oed dros gyfnod o amser.  Yn rhannol dyma ffon fesur llwyddiant ein Strategaeth.<br><br>Ar yr un pryd, yn unol â gofynion y Mesur Sgiliau a Dysgu, fe gynigir mwy o ddewis cyrsiau i blant y dyddiau hyn ac mae cystadleuaeth rhwng y pynciau i ddenu myfyrwyr yn yr oedran 16-19 yn milwrio yn erbyn y niferoedd sydd yn dilyn Cymraeg.<br><br>Dylid nodi hefyd nad yw'r canran a ddangosir uchod yn ystyried y nifer o ddisgyblion sydd wedi gadael ysgolion uwchradd Sir Gaerfyrddin, gyda chymhwyster TGAU mewn Cymraeg iaith gyntaf neu ail iaith, i barhau gydag addysg ôl 16 mewn coleg.  Nid yw'r wybodaeth am y rhai sydd yn dilyn Cymraeg safon uwch yn y colegau wedi ei ystyried yma. | | |

## **Deilliant 6:** Gwella Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol cyfrwng Cymraeg

**Argymhellion Gweithgor y Cyfrifiad- Y Gymraeg yn Sir Gâr-** **yn ychwanegol o ganlyniad i waith Grŵp Iaith Gymraeg Sir Gâr**

***NOD: Cynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Gâr a sicrhau dilyniant ieithyddol o'r sector meithrin ar hyd y cyfnodau allweddol i'r sector uwchradd fel y daw pob disgybl yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg.***

17. Bod y Cyngor Sir yn cynnal ymgyrch farchnata barhaus i hyrwyddo addysg Gymraeg gan esbonio manteision bod yn ddwyieithog i rieni a disgyblion;

18. Bod y Cyngor Sir yn darparu hyfforddiant i lywodraethwyr cynradd ac uwchradd ar fanteision addysg Gymraeg a'r rhesymau addysgiadol, economaidd a chymunedol pam y dylid ehangu'r ddarpariaeth ar draws y sir.

| **A. Amcan** | **B. Perfformiad cyfredol** | **C. Targedau** | **Ch. Cynnydd** |
|---|---|---|---|
| **Gwella darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Cyfrwng Cymraeg**. | Mae'r Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth dwyieithog i ddysgwyr Sir Gaerfyrddin.<br><br>Wele ein gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth:<br><br>*Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael y cyfle i gyflawni eu potensial, mewn amgylchedd dwyieithog, sy'n parchu ac yn gwerthfawrogi pob traddodiad diwylliant.*<br><br>Byddwn yn gweithredu hyn drwy:<br><br>• Cyflogi staff sy'n hyderus i weithio yn y Gymraeg a'r Saesneg;<br>• Fe weithiwn i gefnogi datblygiad sgiliau ieithyddol y rhai sy'n llai hyderus i gyfathrebu ac ysgrifennu yn y Gymraeg.<br>• Cefnogi athrawon a Chydlynwyr Anghenion Ychwanegol yn ein hysgolion Cyfrwng Cymraeg fel eu bod yn hyderus wrth gefnogi plant/pobl ifanc ag anghenion ychwanegol.<br>• Bod addysg Gymraeg neu ddwyieithog ar gael ar gyfer yr holl ddisgyblion sydd yn yr unedau pwrpasol lle'r addysgir plant ag anawsterau dwys a bod cyfle cyfartal ar gyfer pob disgybl i | Erbyn Rhagfyr 2014, drwy adolygu Cytundeb Partneriaeth Ysgol/ALl pob ysgol i fabwysiadu'r egwyddor.<br><br>Erbyn Rhagfyr 2014 drwy wefan yr ALl/Llawlyfrau ysgolion rhannu gwybodaeth gyda rhieni.<br><br>O hyn ymlaen penodi staff gyda'r sgiliau angenrheidiol/ addas i'r lleoliad.<br><br>O hyn ymlaen sicrhau staff sy'n gallu gweithio yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog gan sicrhau bod adnoddau pwrpasol ar gael iddynt er mwyn medru darparu'r gwasanaeth.<br><br>Ar bob achlysur cyflwyno/creu | Ysgolion yn rhannu gwybodaeth gyda rhieni. Ysgolion wedi ymfalchïo yn y ddarpariaeth hyfforddiant a rhannu adnoddau ar draws ERW.<br><br>Staff a gwasanaeth dwyieithog ar gael i ysgolion a disgyblion Sir Gar.<br><br>Datblygu adnoddau dwyieithog wrth ymateb i'r newid deddfwriaeth ym ames ADY. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | dderbyn addysg a chefnogaeth yn ei iaith ddewisedig, beth bynnag fo ei anabledd.<br>• Datblygu rhaglenni cefnogi/ymyrraeth ddwyieithog fel bod yr un adnoddau ar gyfer plant sy'n dewis mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg.<br>• Gwneud arolwg o'r ddarpariaeth bresennol gan farnu'r galw am Anghenion Dysgu cyfrwng Cymraeg<br><br>Gwneud arolwg o'r ddarpariaeth bresennol gan farnu'r galw am Anghenion Dysgu iaith Gymraeg drwy-<br><br>• Ymgynghori gyda Phenaethiaid/ Cydlynwyr Anghenion Dysgu yn rheolaidd i fesur y galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg<br>• Ymgynghori gyda swyddogion/staff yr adran e.e. Seicolegwyr Addysg, Swyddogion Cynnydd Disgyblion, Arweinwyr System ar feysydd i'w datblygu.<br>• Ystyried data am ddisgyblion sydd yn y system a'r galw am ddarpariaeth arbenigol cyfrwng Cymraeg.<br>• Ymgynghori gyda rhieni drwy'r broses Adolygiad Blynyddol/Asiantaeth SNAP.<br>• Gweithredu cynlluniau datblygu darpariaeth Anghenion Dysgu yn Ardal Dinefwr mewn dwy ysgol Categori 2B ac un ysgol Categori 2A.<br>• Parhau gyda'r gwaith ar lefel rhanbarthol i'r potensial o weithio ar y cyd i ddarparu gwasanaethau arbenigol lleol yn lle gorfod prynu lleoedd i blant mewn darpariaethau y tu allan i'r ardal.<br>• Datblygu'r drefn newydd o gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol (Cynllunio Plentyn Canolog, Cynllun Datblygu Unigol, Hawl y Dysgwr) gan sicrhau fod y broses ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.<br>• Rhannu gwybodaeth gyda rhieni.<br>• Cydweithio gyda'r amrywiol asiantaethau er cytuno ar yr egwyddor a'r darparu.<br>• Cyflogi/hyfforddi darparwyr yn y sgiliau dwyieithog angenrheidiol.<br>• Adeiladu i mewn i'r Cynllun Moderneiddio Ysgolion.<br>• Parhau i weithio gydag Awdurdodau eraill ar ddatblygu gwasanaethau arbenigol ardal. | deunydd dwyieithog pwrpasol.<br><br>Tymor yr Haf 2014- Llunio adroddiad hunan-arfarnu cynhwysfawr a fydd yn nodi sefyllfa bresennol y gwasanaeth a fydd yn cynnwys arolwg o'r ddarpariaeth bresennol e.e. gallu dwyieithog y staff<br><br>Tymor yr Hydref 2014- llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael a'r canfyddiadau gan adeiladu unrhyw welliannau gwasanaeth i mewn i'r Cynllun Moderneiddio Ysgolion.<br><br>Gweithredu'r cynlluniau a gytunwyd arnynt gan ehangu'r darpariaethau presennol a'r gallu i weithredu yn ddwyieithog. | Gweithio gyda LIC ar ddadansoddiad o'r gweithlu ADY.<br><br>Darparu cyrsiau a gweithdai'n ddwyieithog i ddiwallu anghenion lleol. |

## **Deilliant 7**: Cynllunio'r gweithlu a chefnogi datblygiad proffesiynol parhaus

**Argymhellion Gweithgor y Cyfrifiad- Y Gymraeg yn Sir Gâr-** **yn ychwanegol o ganlyniad i waith Grŵp Iaith Gymraeg Sir Gâr**

***NOD: Cynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Gâr a sicrhau dilyniant ieithyddol o'r sector meithrin ar hyd y cyfnodau allweddol i'r sector uwchradd fel y daw pob disgybl yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg.***

20. Bod y Cyngor Sir yn cydweithio gyda phob corff Llywodraethol i gynnal arolwg sgiliau iaith er mwyn ystyried anghenion ieithyddol y gweithlu ar gyfer gallu symud yr ysgol ar hyd y continwwm iaith.

**NOD: I gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y gweithle**

33. Bod y Cyngor Sir yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o swyddi'r Cyngor fesul adran er mwyn adnabod swyddi lle ddylai'r Gymraeg fod yn hanfodol. Dylid canolbwyntio yn y lle cyntaf ar swyddi sy'n darparu gwasanaeth uniongyrchol i'r cyhoedd.

39. Bod y Cyngor Sir yn sicrhau cefnogaeth a dilyniant priodol i staff o fewn y gweithle, er mwyn eu galluogi i symud ar hyd y continwwm gallu ieithyddol yn ôl y gofyn. Bydd hyn yn cynnwys y rheini sy'n dysgu am y tro cyntaf hyd at y rheini sydd eisiau gloywi eu hiaith. Dylai rheolwyr annog a chefnogi staff i ddatblygu eu sgiliau gan fonitro a chofnodi cynnydd a defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle fel rhan o'r broses arfarnu staff.

| A. Amcan | B. Perfformiad cyfredol | C. Targedau | Ch. Cynnydd |
|---|---|---|---|
| **Sicrhau cyflenwad digonol o ymarferwyr ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg.** | Yr ydym yn cydweithio gyda chyrff llywodraethu ysgolion i geisio diwallu'r angen am ymarferwyr i ddysgu wrth sicrhau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o:<br><br>• weledigaeth yr Awdurdod Lleol;<br>• Cynllun Strategol Addysg Cymraeg Sir Gaerfyrddin;<br>• Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg;<br>• Trafodaethau gydag Arweinydd System;<br>• Gweledigaeth y Pennaeth;<br>• Hyfforddiant i Lywodraethwyr;<br>• Cyflwyniadau o'r Papur Briffio Cymraeg a Dwyieithrwydd; | Does dim problemau o ran recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg ond er mwyn sicrhau safonau uchel darperir cyrsiau gloywi iaith.<br><br>Sefydlu bas data a'u diweddaru'n flynyddol. | Bas data'n fyw |
| **Gwella sgiliau ieithyddol** | Cynhelir archwiliadau o sgiliau ieithyddol y gweithlu yn gyson drwy:<br>• Holiadur Iaith am yn ail flwyddyn ar gyfer pob aelod o staff | Cydweithio i ddefnyddio un holiadur i gasglu | Casglu gwybodaeth sgiliau ieithyddol yn flynyddol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **ymarferwyr. Gwella sgiliau methodoleg ymarferwyr.** | mewn ysgolion;<br>• Arolwg i gasglu gwybodaeth am sgiliau iaith staff gan y Cyngor- Holiadur electronig E-ddysgu *Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg'* a ddatblygwyd i amlinellu cyfrifoldebau Deddf Iaith 1993 a Mesur y Gymraeg 2010.<br><br>Fe welwch hefyd cyfeiriadau at anghenion dysgu trwy gyfrwng. Mae'r cyrsiau yn cael eu dosbarthu yn ôl yr angen ar lefel unigolyn, ysgol neu deulu o ysgolion.<br><br>Adnabyddir anghenion ar gyfer hyfforddiant methodoleg ar gyfer y rhai sy'n dysgu yn y sector cyfrwng Cymraeg a dwyieithog trwy<br>• Ymweliadau Arweinydd System;<br>• Fframwaith Cymorth, Her ac Ymyrraeth Ranbarthol;<br>• Gwasanaeth Athrawon Gwella'r Gymraeg a Dwyieithrwydd;<br>• Cymunedau Dysgu Proffesiynol;<br>• Arweinwyr System Cysylltiol;<br>• Data;<br>• Cynlluniau Datblygiad Proffesiynol Parhaus teulu o ddefnydd arian grantiau;<br>• Holiaduron iaith.<br><br>Darperir rhaglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus mewn partneriaeth gydag asiantaethau megis y CBAC a'r cyrsiau Sabothol a hyn wedi selio ar anghenion a gofynion ymarferwyr wedi eu hadnabod trwy'r holiadur anghenion, cyfarfodydd rhwydwaith a chynlluniau teulu ar gyfer grant effeithiolrwydd ysgolion.<br><br>Bydd y cyrsiau Sabothol yn ogystal ag hyfforddiant ar lawr y dosbarth a mentora ar draws ysgolion yn hanfodol ar gyfer cynorthwyo ysgolion sy'n newid categori. Hefyd bydd cefnogaeth Cymunedau Dysgu Proffesiynol, Arweinwyr System ac ymweliadau Athrawon Gwella'r Gymraeg a Dwyieithrwydd yn allweddol. Mae'r cynllun Cymunedau Dysgu Proffesiynol ac Arweinwyr System yn hanfodol i sicrhau cynaladwyedd. | gwybodaeth sgiliau ieithyddol y gweithlu.<br><br>Cynyddu'r cyd weithio rhwng cydlynwyr y Gymraeg er mwyn datblygu strategaethau a chysondeb ar draws ERW.<br><br>Parhau i fonitro effaith y cyrsiau Sabothol ar lawr y dosbarth. | Cynnal sesiynau min nos ar gais ysgolion unigol ar *agwedd(au) o waith yr AGGaD*<br><br>Sesiynau *dysgu Cymraeg*, *datblygu Dwyieithrwydd* neu *loywi iaith* ar ddiwrnodau hyfforddiant mewn swydd, yn ystod y diwrnod ysgol neu fel sesiynau min nos<br>*Cefnogaeth iaith* i gynorthwywyr dysgu wrth eu gwaith ar lawr y dosbarth<br><br>*Adnabod a recriwtio* athrawon a chynorthwywyr dysgu ar gyfer y Cyrsiau Sabothol lefelau Mynediad, Sylfaen ac Uwch<br><br>AGGaD yn cyfrannu arbenigedd iaith a methodoleg yn ystod cyrsiau<br><br>Cefnogi ymarferwyr nôl yn eu hysgolion<br><br>Cyflwyno sesiynau blynyddol ar fethodolegau cyflwyno Ail iaith i fyfyrwyr ail flwyddyn y cwrs BAdd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae'r Arweinyddion System yn cael eu defnyddio'n strategol ar gyfer hyfforddiant a mentora ac yn ymateb i ofynion ac anghenion ysgolion/teulu.<br><br>Defnyddir:<br><br>• Data;<br>• Fframwaith Rhanbarthol ar gyfer Cefnogaeth, Her ac Ymyrraeth a'r Matrics;<br>• Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg;<br>• Strategaeth Llythrennedd;<br>• Fframwaith Arolygu Llythrennedd Rhanbarthol;<br>• Cyfathrebu a chyd weithio.<br>• Iaith fyw: iaith byw 2012-2017 -LIC<br><br>Mae'r adroddiadau ymweliad a hyfforddiant yn sicrhau hyn.<br><br>Prif nod Datblygiad Proffesiynol Parhaus ydy i godi safonau llythrennedd a llythrennedd deuol. Mae'r teuluoedd, trwy Grant Effeithiolrwydd Ysgolion yn blaenoriaethu rhaglenni ymyrryd fel Llythrennau a Synau. Gwelir hefyd nodau ac amcanion strategaeth Llythrennedd -Deilliant 5<br><br>Mae'r Awdurdod Lleol yn canfod athrawon ar gyfer Cynllun Sabothol Llywodraeth Cymru a chyrsiau iaith Gymraeg y Cynllun Sabothol. Darperir cyrsiau Cymraeg gan Athrawon Gwella'r Gymraeg a Dwyieithrwydd i adnewyddu sgiliau, rhaglenni ôl ofalaeth, cefnogi a mentora. Bydd monitro yn digwydd pan ydynt yn dychwelyd i'r dosbarth a disgwyliadau o ran codi safonau Cymraeg Ail Iaith<br><br>Mae yna gytundeb rhwng Prifysgol Dewi Sant y Drindod a'r awdurdod lleol bod cynrychiolydd o'r Gwasanaeth Athrawon Gwella'r Gymraeg a Dwyieithrwydd yn rhan o dîm hyfforddi'r cyrsiau Sabothol. | Cynlluniau ar gyfer effeithiolrwydd darpariaeth Cymraeg- targedu ardal Caerfyrddin a Llanelli.<br><br>Targedir athrawon ac ysgolion Dwy Ffrwd/Cyfrwng Saesneg sydd yn symud ar hyd y continwwm gan Athrawon Gwella'r Gymraeg a Dwyieithrwydd.<br><br>Parhau gyda'r cytundeb o gydweithio | |
| **Integreiddio** | Mae pob teulu ysgol ar draws yr awdurdod lleol yn ystyried gwella | Ehangu'r cyd weithio ac | Mae pob teulu ysgol ar draws yr |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **ystyriaethau cyfrwng Cymraeg ym mhob agwedd ar y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion.** | cyrhaeddiad mewn Cymraeg Iaith Gyntaf ac Ail Iaith ac mewn methodoleg cyfrwng Cymraeg/dwyieithog mewn Cymunedau Dysgu Proffesiynol. Darparwyd hyfforddiant safoni a chymedroli ar draws yr awdurdod lleol yn 2012/13.<br><br>Cefnogir ysgolion trwy rannu data, rhannu arfer da a rhannu adnoddau.<br><br>Ar lefel rhanbarthol ERW mae'r gwaith o gefnogi dysgu Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith yn weithredol trwy:<br><br>• Grŵp Ffocws Llythrennedd;<br>• Hyfforddiant gan Arweinwyr System ac Arweinwyr System Cysylltiol;<br>• Rhaglenni ymyrryd- Dyfal Donc, Llythrennau a Synau.<br><br>Mae angen creu:<br><br>• Diwylliant Perfformiad Uchel a chydraddoldeb;<br>• Lleihau bwlch perfformiad mewn ysgolion a rhwng ysgolion;<br>• Lleihau bwlch perfformiad rhwng bechgyn a merched;<br>• Sicrhau y defnyddir adnoddau a Rhwydweithiau Ymarfer Proffesiynol yn effeithiol;<br>Sefydlir Cymunedau Dysgu Proffesiynol i fynd i'r afael â:<br><br>• dysgu Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith;<br>• gwella llythrennedd Cymraeg/llythrennedd deuol;<br>• dysgu pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg/dwyieithog;<br>• caffael sgiliau iaith Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen;<br>• cynllunio ar gyfer defnydd anffurfiol o'r Gymraeg mewn ysgolion.<br><br>Bydd Athrawon Gwella'r Gymraeg a Dwyieithrwydd yn cychwyn ar y gwaith ac yna er mwyn sicrhau cynaladwyedd bydd ôl ofalaeth ganddynt hefyd. | ystyried cyfnewid staff arbenigol | awdurdod lleol yn ystyried gwella cyrhaeddiad mewn Cymraeg Iaith Gyntaf ac Ail Iaith ac mewn methodoleg cyfrwng Cymraeg/dwyieithog mewn Cymunedau Dysgu Proffesiynol. Darparwyd hyfforddiant safoni a chymedroli ar draws yr awdurdod lleol a'r rhanbarth<br><br>Bydd Y Siarter Iaith yn gyrru'r defnydd o'r Gymraeg<br><br>Ffocws yn yr All ar-<br><br>• Diwylliant Perfformiad Uchel a chydraddoldeb;<br>• Lleihau bwlch perfformiad mewn ysgolion a rhwng ysgolion;<br>• Lleihau bwlch perfformiad rhwng bechgyn a merched;<br>• Sicrhau y defnyddir adnoddau a Rhwydweithiau Ymarfer Proffesiynol yn effeithiol;<br><br>Sefydlir Cymunedau Dysgu Proffesiynol i fynd i'r afael â:<br><br>• dysgu Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith;<br>• gwella llythrennedd Cymraeg/llythrennedd deuol;<br>• dysgu pynciau eraill drwy |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | gyfrwng y Gymraeg/dwyieithog; caffael sgiliau iaith Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen;<br>• cynllunio ar gyfer defnydd anffurfiol o'r Gymraeg mewn ysgolion.<br>Mae'r agweddau uchod wedi ymwreiddio'r ymweliadau craidd Ymgynghorwyr Her. |

Hefyd - o ganlyniad i lansio ein Siarter Cyfrwng Cymraeg Iaith Ysgolion Cynradd

**Adran 2: Grant y Gymraeg mewn Addysg, Datblygu'r Gweithlu a Datblygiad Proffesiynol Parhaus – ychwanegiad o ganlyniad lawnsiad ein Siarter Iaith Cyfrwng Cymraeg i Ysgolion Cynradd**

Yn dilyn cytundeb y Grŵp Llywio Gwella Ysgolion sy'n cynnwys cynrychiolwyr penaethiaid a swyddogion yr Awdurdod Lleol, cytunwyd y dylai cyllid Grant y Gymraeg Mewn Addysg gael ei ddatganoli yn uniongyrchol i ysgolion uwchradd. Cytunwyd hefyd y byddai cyllid Grant y Gymraeg Mewn Addysg ar gyfer ysgolion cynradd gael ei gadw'n ganolog gan alluogi'r Gwasanaeth Athrawon Gwella'r Gymraeg a Dwyieithrwydd i arwain ar nifer o rwydweithiau arfer proffesiynol yn ogystal ag i ddarparu cymorth wedi'i dargedu ar gyfer ysgolion penodol a Datblygiad Proffesiynol Parhaus.

**<u>Darpariaeth Gwasanaeth Athrawon Gwella'r Gymraeg a Dwyieithrwydd ar gyfer codi safonau dwyieithrwydd</u>**

**Codi Caerau-** Siarter Iaith Sir Gâr

(Daw'r CAER o *Caer*fyrddin- enw'r sir a tharddiad y gair CAER yw'r Lladin *castrum* sy'n golygu castell neu gadarnle)

Un o amcanion y CSGA oedd datblygu siarter iaith i ysgolion Sir Gâr a oedd yn seiliedig ar siarter ysgolion Gwynedd a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru. Nod siarter Codi Caerau Sir Gâr yw darparu fframwaith a ellir ei ddefnyddio i hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn cyd-destun cymdeithasol. Yn syml, prif fwriad Codi Caerau Sir Gâr yw annog plant a phobl ifanc Sir Gâr *i ddysgu a siarad y Gymraeg*




Dyfeisiwyd 'cymeriad' i helpu i gyflwyno'r neges i ddisgyblion cynradd. Dyma 'Celt' sy'n atgoffa plant am bwysigrwydd dysgu a siarad y Gymraeg. Byddwn yn llunio cyfres o weithgareddau yn seiliedig ar Celt - llyfrau darllen, drama, hanes lleol.

**Marchnata Manteision**

Deunyddiau marchnata dwyieithrwydd wedi creu– Posteri, Pamffledi, DVD Nod lyfrau, Bathodynnau, Bandiau, er mwyn:

- Hyrwyddo gwerth bod yn ddwyieithog yn Sir Gâr a Chymru.
- Cyflwyno ffeithiau sy'n seiliedig ar ymchwil.
- Cyflwyno mewn dull syml a chlir.
- Defnyddio sêr y Sir i gefnogi'r ymgyrch sef, Alex Jones a Nigel Owens.
- Cynnal sesiynau hyfforddiant ar weithredu'r Siarter.

**Cwrs Cloncan**- *Targedu disgyblion, athrawon a chynorthwywyr i godi safonau gyda gweithgareddau llafar, a syniadau am gemau ysgogol o'r*

<table>
<tr><td colspan="2">Cyfnod Sylfaen hyd at ddarllen ac ymateb  ac ysgrifennu 'n lled annibynnol ym Mlwyddyn 6.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cynllun “Medru Dweud Medru Gwneud”- Cyfres o weithgareddau wedi eu targedu at Gyfnod Allweddol 2 yn cael eu cyflwyno yn null Pie Corbett i godi safon llafaredd a  sgiliau cyfathrebu. Yn arwain at godi sgiliau gwrando, darllen a chan gynnwys y Chwe Phwrpas ysgrifennu.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Pecyn Drilio iaith drwy Gân- Dysgu patrymau brawddegol a rhythm iaith drwy gân.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Syniadau ar sut i Fagu Hyder ac Agwedd Bositif wrth drosglwyddo o’r Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cefnogi athrawon a chynorthwywyr yn y Cyfnod Sylfaen i godi safon dwyieithrwydd.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Mathemateg drwy gyfrwng Cymraeg- Cyfuno gwaith iaith a datblygu sgiliau ar draws y cwricwlwm drwy gyflwyno Mathemateg ar Ddatrys Problemau mewn ysgolion Cyfrwng Cymraeg.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Agweddau ar Wyddoniaeth- Cyfuno gwaith iaith gan ddatblygu sgiliau ar draws y cwricwlwm drwy gyflwyno arbrofion gwyddonol mewn ysgolion Cyfrwng Cymraeg.</td></tr>
<tr><td>Hyfforddiant</td><td>• Cynnal gweithdai/hyfforddiant gan enghreifftio gweithgareddau symbylus a dulliau dysgu ysgogol.<br>• Gwersi Cymraeg i oedolion sy'n rhan o staff mewn ysgolion.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Trefnu Cyrsiau Sabothol Datblygiad dwyieithrwydd ac  ôl ofalaeth ar lawr y dosbarth.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Sefydlu Clybiau Hwyl mewn ysgolion Cyfrwng Saesneg, gan adnabod sgwadiau o blant fel arweinyddion.</td></tr>
<tr><td>Y Canolfannau Cymraeg</td><td>• Cynllun Hwyrddyfodiaid;<br>Cefnogaeth pontio Cyfnod Allweddol 3;<br>• Cynllunio;<br>• Cynllunio cyfleoedd asesu parhaus wrth addysgu;<br>• Trafod ac arwain cynllunio sgiliau iaith yn ôl gofynion cwricwlwm.</td></tr>
<tr><td>Gorsafoedd Iaith</td><td>• Codi lefelau 4 a 5</td></tr>
<tr><td colspan="2">Dechrau Da a Blas ar Gymru- Dau gynllun wedi eu targedu i godi ymwybyddiaeth rhieni o fanteision addysg ddwyieithog -cyn dechrau ysgol ac wrth bontio Cyfnodau Allweddol 2/3.</td></tr>
</table>

**<u>Cynllun Datblygiadol Cyfundrefn AGGaD i ddiwallu Ysgolion Cyfrwng Saesneg ALl Sir Gâr</u> – rhagor o wybodaeth am y cymorth a ddarparwyd i Ysgolion Cyfrwng Saesneg**

**Sefyllfa 2010-2012.**

- Sefydlwyd Cynllun Cloncan;
- Targedwyd -Dechrau Cloncan (Cyfnod Sylfaen), Dal i Gloncan (Blynyddoedd 3 a 4) Mwy o Gloncan (Blynyddoedd 5 a 6);
- Crëwyd sawl pecyn arall yn ymwneud â dwyieithrwydd i'w gynnig mewn Catalog adnoddau i'r ysgolion;
- Diwallwyd pob ysgol Cyfrwng Saesneg a dwy Ffrwd yn ystod y ddwy flynedd;
- Cynhaliwyd hyfforddiant;
- Bu Arweinydd Tîm Dwyieithrwydd AGGaD yn gyfrifol am Gyrsiau Sabothol mewn cydweithrediad â Choleg Y Drindod Dewi Sant , i athrawon prin eu Cymraeg a chynorthwywyr dosbarth.

Mae Ysgolion Cyfrwng Saesneg a Dwy Ffrwd yr Awdurdod Lleol wedi eu clystyru i "Deuluoedd" ac mae'r awdurdod yn annog cydweithio yn y modd hwn. O fewn y Teuluoedd hyn, adnabu'r Athrawon Gwella'r Gymraeg a Dwyieithrwydd ysgolion sydd ymhell oddi wrth ei gilydd ar y continwwm ieithyddol a byddwn yn targedu yn benodol i godi safonau a symud ysgolion - nid o reidrwydd yn yr un Teulu, ond â'r un gofynion ieithyddol, i'w datblygu ymhellach mewn dwyieithrwydd. Dyma fydd y flaenoriaeth, ond bydd cefnogaeth yn parhau yn holl ysgolion Cyfrwng Saesneg yr Awdurdod Lleol.

Cynnal ***Gweithdai Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith*** blynyddol er mwyn cyflwyno gwybodaeth am gynlluniau a datblygiadau newydd, modelu arfer dda a rhannu adnoddau gydag athrawon

**Cynllun Tymor Byr 2 flynedd- targedu Ysgolion sydd ymhellach ymlaen ar y continwwm ieithyddol**

1. Cyflwyno Datganiad Dwyieithrwydd i bob ysgol a'u hannog i adnabod eu lle ar y Continwwm Iaith;
2. Trafod gyda'r ysgolion targed ar sut i symud ymlaen drwy arweiniad;
3. Argymell Cynllun Iaith Hyfforddiant Athrawon Dosbarth sy'n clymu wrth…
4. Y Cwrs Sabothol
5. Cynllun Hyfforddiant gweinyddesau a chynorthwywyr fydd yn arwain at…
6. Modelu gwersi ar lawr dosbarth.

Drwy sianelu egni Athrawon Gwella'r Gymraeg a Dwyieithrwydd ar yr uchod medr yr ysgolion hyn gyflwyno Cynllun Cloncan yn annibynnol. Bydd y Cyflwyno, y Trafod a'r Argymell yn digwydd mewn grwpiau, clystyrau mewn un Canolfan.

Bwriedir trefnu Canolfan Symudol at weithio- stafell bwrpasol Dwyieithrwydd mewn ysgol ganolog i'r ysgolion targed ar y pryd , a bydd cyfres o Ddyddiau Agored a Nosweithiau Datblygu wedi eu clustnodi am gyfnod ymestynnol.

Bydd gwaith y Ganolfan yn ddatblygiadol:

- drwy gyd-weithio ag Adrannau Cymraeg a Dwyieithog Ysgolion Uwchradd y Teuluoedd bwriedir hwyluso Pontio Blwyddyn 6 a 7;
- drwy gydweithio bwriedir cyflymu datblygiad a chodi safonau yn gyson.

Bydd y grŵp hwn o ysgolion yn derbyn Cynllun Datblygiadol ar y defnydd o Iaith Achlysurol fydd yn rhoi i'r ysgolion batrymau iaith ddilyniannol a gweithredol.

Dechrau cyd-weithio gydag Adrannau Cymraeg Dwyieithog i sefydlu-

- Grwpiau trochi;
- Grwpiau pontio;
- Hyfforddiant parhaus athrawon a gweinyddesau.

***Gorsafoedd iaith***: eto'n seiliedig ar agweddau o hanes Cymru ac yn datblygu sgiliau ysgrifennu ymestynnol disgyblion Bl5. Wythnos o gwrs; disgyblion Bl5 o sawl ysgol-

- I gyda'i gilydd; 3 gorsaf mewn teulu o ysgolion; 2 AGGaD yn cyd-gyflwyno
- Cynllun ***Pontio Cynradd-Uwchradd*** a dreialwyd yn ysgolion Bro Dinefwr.

**Atodiad 3: Niferoedd a chanrannau'r disgyblion sy'n mynychu lleoliadau cyfrwng Cymraeg nas cynhelir a gyllidir sy'n darparu'r cyfnod sylfaen sy'n trosglwyddo i ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog- DATA DIWEDDARAF**

**Atodiad 4 : niferoedd a chanrannau'r disgyblion mewn ysgolion cynradd Cymraeg a dwyieithog sy'n trosglwyddo i ysgolion uwchradd Cymraeg**

| Cyfanswm y disgyblion mewn ysgolion cynradd Cymraeg a dwyieithog | Cyfanswm y disgyblion sy'n trosglwyddo i ysgolion uwchradd Cymraeg | Canran y disgyblion sy'n trosglwyddo i ysgolion uwchradd Cymraeg a dwyieithog |
|---|---|---|
| Carfan Bl6 2010 = **863** | **789** | **91.4%** |
| Carfan Bl6 2012 = **1035** | **952** | **92%** |
| Carfan Bl6 2013 =**1073** | **1005** | **93.7%** |
| Carfan Bl6 2014 = **1057** | **967** | **91.8%** |
| ***Carfan Bl6 2015 = 1127*** | ***960*** | ***85.25%*** |

***Darn o waith dadansoddol yn cael ei wneud ar y lleihad yn nifer y plant sy'n trosglwyddo o addysg Gymraeg cynradd i addysg Gymraeg Uwchradd.***

**Atodiad 4: Cyraeddiadau a pherfformiad mewn Cymraeg Ail Iaith**

| **Cyfnod Allweddol 2**<br>Asesiadau athro mewn Cymraeg Ail Iaith ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 | Nifer y disgyblion | Canran y disgyblion | Canran sy'n cyrraedd Lefel 4 |
|---|---|---|---|
| **2011** | **1,877** | **49%** | **58.9%** |
| **2012** | **1,779** | **42%** | **51.4%** |
| **2013** | **1,862** | **49.2%** | **61.1%** |
| **2014** | **895 allan o 1868** | **47.9%** | **67.4%** |
| **2015** | **818 allan o 1767** | **46.3%** | **65.4%** |

| **Cyfnod Allweddol 3**<br>*Disgyblion Blwyddyn 9 sy'n cael asesiad athro mewn Cymraeg Ail Iaith ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3* | Nifer y disgyblion | Canran y disgyblion | Canran sy'n cyrraedd Lefel 5 |
|---|---|---|---|
| **2012** | **1289 allan o 2021** | **63.7%** | **67%** |
| **2013** | **1257 allan o 1983** | **63.3%** | **71%** |
| **2014** | **1198 allan o 1959** | **61.2%** | **76.6%** |
| **2015** | **1081 allan o 1926** | **56.1%** | **80.9%** |

**Atodiad 5: Acronym**

| | |
|---|---|
| CS | Cyfnod Sylfaen |
| CA2 | Cyfnod Allweddol 2 |
| CA3 | Cyfnod Allweddol 3 |
| CA4 | Cyfnod Allweddol 4 |
| ADY | Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| ALl | Awdurdod Lleol |
| AGGaD | Athrawon Gwella'r Gymraeg a Dwyieithrwydd |
| FEY | Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion |
| LlC | Llywodraeth Cymru |
| ERW | Ein Rhanbarth ar Waith |
| TWF | Twf |
| AS | Arweinwyr System |
| ASC | Arweinwyr System Cysylltiol |
| CDP | Cymunedau Dysgu Proffesiynol |
| TG | Technoleg Gwybodaeth |
| DPP | Datblygiad Proffesiynol Parhaus |
| GEY | Grant Effeithiolrwydd Ysgolion |
| GyGMA | Grant y Gymraeg mewn Addysg |

**Atodiad 6: Categorïau Ysgolion Uwchradd –** ychwanegol – er gwybodaeth ac eglurdeb

| Categori | Cwricwlwm | Iaith yr Ysgol | Canlyniadau |
|---|---|---|---|
| **Cyfrwng Cymraeg 1**<br><br>**CC** | Addysgir pob pwnc heblaw Saesneg trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg i bob disgybl. Gall rhai ysgolion gyflwyno terminoleg Saesneg mewn un neu ddau o bynciau. | Cymraeg yw iaith cyfathrebu gyda disgyblion a gwaith pob dydd yr ysgol. Mae'r ysgol yn cyfathrebu gyda rhieni yn y ddwy iaith. | Bydd yr asesu yn CA3 a CA4 trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg ym mhob pwnc heblaw Saesneg neu ieithoedd eraill. Bydd disgyblion yn gallu mynd ymlaen i ddarpariaeth ôl-16 Cyfrwng Cymraeg. |
| **Dwyieithog** | **Mae 4 o israniadau i'r categori hwn yn ôl y pynciau a addysgir trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg ac a oes darpariaeth gyfochrog yn Saesneg.** | Penderfynir iaith neu ieithoedd pob dydd yr ysgol trwy ei chyd-destun ieithyddol. Defnyddir y ddwy iaith i gyfathrebu gyda disgyblion a gweinyddu'r ysgol. Rhoddir blaenoriaeth fawr i greu ethos Cymraeg. Mae'r Ysgol yn cyfathrebu gyda rhieni yn y ddwy iaith. | Ar gyfer disgyblion yn 2A, 2B a 2C sy'n dilyn y nifer fwyaf o gyrsiau trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, byddai'r asesu yn CA3 a CA4 trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg yn y pynciau hynny ac y byddent yn gallu symud ymlaen i ddarpariaeth ôl-16 trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg mewn pynciau a ddewisir. |
| **2A** | Addysgir o leiaf 80% o'r pynciau (heblaw Saesneg a Chymraeg) trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg yn unig i bob disgybl. Addysgir un neu ddau o bynciau i rai disgyblion yn Saesneg neu'r ddwy iaith. | | |
| **2B** | Addysgir o leiaf 80% o'r pynciau (heblaw Saesneg a Chymraeg) trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg ond addysgir hwy hefyd trwy gyfrwng Saesneg. | | |
| **2C** | Addysgir 50-79% o'r pynciau (heblaw Saesneg a Chymraeg) trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg ond addysgir hwy hefyd trwy gyfrwng Saesneg. | | |
| **2CH** | Addysgir pob pwnc (heblaw Saesneg a Chymraeg) i bob disgybl yn y ddwy iaith. | | |

| Categori | Cwricwlwm | Iaith yr Ysgol | Canlyniadau |
|---|---|---|---|
| **Saesneg gyda defnydd sylweddol o Gymraeg**<br><br>**SC** | Addysgir yn y ddwy iaith gan addysgu 20-49% o'r pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai pob pwnc yn cael ei ddysgu fel arfer hefyd trwy gyfrwng y Saesneg. | Penderfynir iaith neu ieithoedd pob dydd yr ysgol trwy ei chyd-destun ieithyddol. Defnyddir y ddwy iaith i gyfathrebu gyda disgyblion a gweinyddu'r ysgol. Rhoddir blaenoriaeth fawr i greu ethos Cymraeg. Mae'r Ysgol yn cyfathrebu gyda rhieni un ai yn y ddwy iaith neu yn y Saesneg. | Gellid asesu disgyblion sy'n cymryd dewisiadau cyfrwng Cymraeg trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg yn y pynciau hynny ar bob lefel a byddent yn gallu symud ymlaen i astudio ôl-16 trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg yn y pynciau hynny. |
| **Ysgol cyfrwng Saesneg**<br><br>**CS** | Addysgir disgyblion yn bennaf trwy gyfrwng Saesneg. Gellid addysgu Cymraeg a addysgir yn ail iaith hyd at CA4 (gallai gynnwys Cymraeg yn iaith gyntaf) trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg neu drwy ddefnyddio'r ddwy iaith. | Saesneg yw iaith bob dydd yr ysgol, ond mae rhywfaint o gyfathrebu yn Gymraeg gyda'r disgyblion, gyda'r nod o wella eu gallu i ddefnyddio Cymraeg bob dydd. Mae'r ysgol yn cyfathrebu gyda rhieni un ai yn y ddwy iaith neu yn y Saesneg. | Gellid asesu unrhyw ddisgyblion sy'n cymryd dewisiadau cyfrwng Cymraeg trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg yn y pynciau hynny ar bob lefel a byddent yn gallu symud ymlaen i astudio ôl-16 trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg yn y pynciau hynny. Byddai'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cael eu hasesu yn Saesneg ac yn symud ymlaen i astudio ôl-16 trwy gyfrwng y Saesneg. |